

CANU GWERIN (FOLK SONG)

23 - 2000

CYMDEITHAS
ALAWON GWERIN
CYMRU

THE WELSH
FOLK-SONG
SOCIETY




Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru
Journal of the Welsh Folk-Song Society

Rhai caneuon anghyhoeddedig ym mhapurau John Lloyd Williams Meredydd Evans	3
Cip ar faledi Jonathan Hughes Siwan Rosser	25
The 'honest' millers of Welsh traditional song Emma Lile	46
Rhagor am Fardd Alaw a'i alawon mewn casgliad unigryw Huw Williams	59
Moddau a thonyddiaeth cerddoriaeth Iwerddon William Mahon	63

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygyddion na'r Gymdeithas.

Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editors or the Society.



Golygyddion: Rhidian Griffiths, Rhiannon Ifans

Cysodi: Gair am Air, Porthmadog

Argraffu: Argraffwyr Arfon

Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru

Aelodaeth unigol: £6.00
(Individual membership)

Aelodaeth deuluol: £8.00
(Family membership)

Aelodaeth myfyrwyr: £2.00
(Student membership)

Ysgrifennydd Aelodaeth / Membership Secretary:

Dr Rhidian Griffiths, Coed y Berllan, Ffordd Bryn-y-Môr,
Aberystwyth, Ceredigion
SY23 2HX
 (01970) 610160

Llun y clawr: Melin Llynnon, Llanddeusant, Ynys Môn
Llun: Geoff Charles
(trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

RHAI CANEUON ANGHYHOEDDEDIG YM MHAPURAU JOHN LLOYD WILLIAMS

Meredydd Evans



Gair i ddechrau am bapurau J. Lloyd Williams sydd ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol. Dyna'r unig ffynhonnell y byddaf yn tynnu arni. Mae cruglwyth o eitemau yn y casgliad, 145 o eitemau i gyd, yn cynnwys llyfrau printiedig, llawysgrifau, llythyrau, nodlyfrau, dyddiaduron, cannoedd o ddalennau rhydd, toriadau newyddiadurol, nodiadau darlith, ysgrifau, a sawl math arall ar ddogfen. Ac, wrth gwrs, caneuon ac alawon.

Y broblem fwyaf dyrys i ymchwilydd yw nad yw'r holl gruglwyth hwn wedi ei gofnodi yn drefnus. Bu rhyw fath ar ddosbarthu cyffredinol arno ond nid ar chwarae bach y deuir o hyd i fanylion ynddo. Hyn a'm harweiniodd yn y diwedd i geisio llunio math ar gatalog a allai fod o werth ymarferol i mi fy hun ac i eraill sy'n ymddiddori yn y dogfennau cysylltiedig â cherddoriaeth werin sy'n gynwysedig ynddo. A minnau'n amddifad o hyfforddiant fel catalogydd mi wn yn burion fod cryn le i wella ar fy nhipyn gwaith ond beth bynnag am hynny mae gennyf, bellach, chwe ffeil drwchus iawn ac y mae croeso i unrhyw ymchwilydd eu defnyddio.

Serch hynny, dylwn nodi fod un anhawster ychwanegol.

Dyma hwnnw. Does dim sicrwydd y cedwir y cruglwyth yn yr un drefn ag a gofnodwyd yn fy nghatalog i. Nid pob ymchwilydd sy'n gofalu gosod pethau yn ôl yn eu lle priodol wrth ymwneud â chasgliadau llyfrgellyddol ac o ganlyniad gall y bydd gofyn am chwilota ychwanegol ar ran y sawl fydd yn defnyddio fy nghatalog. Yn naturiol doedd dim hawl gennyf i rifo'r eitemau sydd oddi mewn i'r amlenni, ffeiliau, bwndeli clymedig a blychau niferus sydd yng nghasgliad JLIW. Y gorau y gallwn i ei wneud oedd ceisio disgrifio mor fanwl ag y gallwn yr amlenni, ffeiliau a bwndeli hynny eu hunain.

Trown yn benodol at y caneuon a'r alawon sydd ar gael yno. Mae ugeiniau lawer ohonynt, nifer wedi eu cyhoeddi mewn amrywiol fannau a nifer helaeth heb eu cyhoeddi o gwbl. Y rhai olaf hyn fydd yn mynd â'n sylw ni yma ond, ar hyn o bryd, rhai yn unig o'r rheini.

Yn ddelfrydol dylai'r Gymdeithas ofalu bod ei hymchwilydwr, dros gyfnod o amser, yn dod â phob un o'r rhain i'r fei, i'w cyhoeddi yn rhifynnau *Canu Gwerin*, hynny yw, pob un y mae cyfiawnhad dros dderbyn ei bod yn gwreiddio'n gadarn yn y traddodiad llafar. Rhaid ychwanegu hefyd fod rhai ohonynt wedi eu cofnodi mor flêr gan y bobl a'u rhoddodd neu a'u hanfonodd i gynrychiolwyr y Gymdeithas fel na ellir gwneud na phen na chynffon ohonynt.

Yn y cyfamser dyma geisio cychwyn ar y gwaith o'u rhoi ar glawr ac yr wyf am fy nghyfyngu fy hun y tro hwn i ganeuon anghyhoeddedig mewn casgliad o eiddo Ruth Lewis, a rhai caneuon eraill sydd i'w cael yn rhannau cynharaf papurau JLIW. Yn wir, mae dau gasgliad gan Ruth Lewis ymysg y papurau hynny ond â'r cyntaf yn unig y bydd a wnelom ni yma.

(A) Casgliad cyntaf Ruth Lewis.

Rhifir y casgliad hwn fel Eitem VI, Bocs I, ac ynddo y deawn ar draws y caneuon anghyhoeddedig cyntaf ym mhapurau JLIW. Ar y dudalen flaen ceir y geiriau hyn: 'Folk songs collected by Mrs Herbert Lewis June 7 Sept 1913 Llandyssul & Llansannen taken down from the phonograph by Miss Morfydd Owen - Please make

any use you like of them'. Ac yn dilyn cawn sylw yn llaw JLIW ei hun: 'Acknowledged & sent hurried notes Ap 18.14'.

Dyna ni felly; yn 1914, i bob golwg, y flwyddyn y cyhoeddwyd cyfrol gyntaf Ruth Lewis, *Folk-songs collected in Flintshire and the Vale of Clwyd*, y derbyniodd JLIW y casgliad bychan hwn. Gwaetha'r modd ni welais hyd yma gofnod o'r nodiadau brysiog a anfonodd yn ôl i'r casglydd.

Mae'r casgliad yn cynnwys tair ar ddeg o ganeuon. Cyhoeddwyd pump ohonynt mewn amrywiol fannau gan adael wyth heb eu cyhoeddi. O'r tair ar ddeg, casglwyd pump yn Llansannan ac un yn Halcyn, sir y Fflint, er mai un yn unig ohonynt a gyhoeddwyd yng nghyfrol 1914 sef y garol 'Roedd yn y wlad honno'. Cyhoeddwyd hi hefyd yn *Cylchgrawn* II:128. Yng Ngheredigion a sir Gaerfyrddin y casglwyd y saith arall: pedair yn Llanwenog. Ymddengys mai rywbyrd ym Mehefin 1913 y bu'r casglu yng Ngheredigion a sir Gâr ac ym Medi yn Llansannan.

Dyma'r wyth cân anghyhoeddedig: Can y Troell Bach, Tra bo eglwys yn Llanelli, Yr asyn a fu farw, Deryn di pigfelen, Dau rosyn goch, Can yr asyn, Mynwent Eglwys, O bra boys; a'r sillafu yn dangos mai ail iaith oedd y Gymraeg i Ruth Lewis, y Saesnes a oedd mor frwd dros bopeth Cymraeg. Cymeraf hwy yn eu trefn.

CAN Y DROELL BACH.

Dyma'r nodyn cefndir iddi:

...sung into phono by Henry Williams an old weaver the factory
Rhyd yr arian Llansannan Sept 1913 He said they sang it when
spinning - goes very well with a spinning wheel I have tried it
with mine Of late years it has been sung to carol words. Llew
Tegid has it from the same man He says it is Can y Ceiliog du
(not the same as N. Bennett coll)

Roedd Llew Tegid yn llygad ei le. Felly hefyd Ruth Lewis wrth ei chysylltu â geiriau carolau, er y gallai hi fod wedi tybio mai cân waith oedd hi yn wreiddiol; cân gysylltiedig â nyddu. Onid

awgrymir hynny ganddi pan ddywed: ‘Of late years it has been sung to carol words’? Ond os felly roedd hi’n tybio, rwy’n awgrymu, mai tyb ddi-sail oedd hi neu, o leiaf, tyb yn seiliedig ar y ffaith syml fod Henry Williams wedi dweud wrthi ei fod o a rhai o’i gydweithwyr yn ei chanu wrth eu gwaith, ar brydiau.


A barnu wrth y dystiolaeth, y mae’r alaw y cyfeirir ati’n arferol fel alaw neu dôn ‘Y Ceiliog Du’ yn un a ddefnyddiwyd i ganu geiriau carolau Nadolig a cherddi baledi: un o’r rheini oedd ‘Cerdd Tros Wraig oedd yn Diodde caethiwed a Carchar, gan ei gwr ei hynnan’, Hugh Jones, Llangwm.

Fel mae’n digwydd, ymddengys mai carol Nadolig a ganai Henry Williams pan recordiwyd o yn canu alaw ‘Y Ceiliog Du’ ar ffonograff Ruth Lewis yn y ffatri wlân yn Llansannan. Y gwir yw fod cofnod arall ohoni ar gael ymysg ei phapurau hi ei hun yn llyfrgell Amgueddfa Werin Cymru, gyda chwpled agoriadol y garol o dan farrau cyntaf yr alaw: ‘O bob rhyw fore, er byd yn fyd, / Dyma’r bore gore i gyd, &’ a nodir yno mai y ffatriwr oedd y canwr.

Cwpled agoriadol un o garolau plygain Robert Davies (Bardd Nantglyn, 1769-1835) yw hwn ac y mae’r garol gyfan i’w chael yng nghyfrol *Cnewyllyn mewn Gwisg* y prydych hwnnw, a gyhoeddwyd yn 1798. Mae iddi ddeg pennill i gyd.

Am yr alaw ei hun bodlonaf ar ddweud ei bod nid yn unig yn aelod o deulu bach o alawon ond bod rhai alawon gwahanol, hefyd, i’w cael sy’n dwyn yr un enw. At hynny rhaid sylwi bod y fersiwn a welir yma ym mhapurau JLIW wedi ei bario yn anghywir. Felly, cystal cyflwyno yma fersiwn Amgueddfa Werin Cymru.

Can y Droell Bach



O bob rhyw fo - re, er byd yn fyd, Dy - ma'r bo - re__ go-re i gyd
 Bo - re o hedd ym - ge-ledd gu, A cho-di o'r dwfn Be - cha-dur du,
 Bo - re'__ lla - wen se - ren__ sail Ni bu er-ioed un__ bo - re o'i ail
 Ang-y - laidd gôr roes__ fawl ddi - gudd Can-tor-ion da cyn__ to-ni'r dydd.

Yn Ddydd hi ddaeth i'r caeth eu cri
 Y gair yn gnawd a wnawd i ni
 Daeth Bydded golau'r Dyddiau du
 O'r glanaf air a goleini fu,
 Er cwmpo Dyn heb ronyn rym,
 Yn bell i dwyll heb allu dim,
 O'i wreiddyn drwg oedd lawn o dra
 Bu'r gair yn dwyn blaguryn da.

MYNWENT EGLWYS (Tra bod eglwys yn Llanelli...)

Dyma'r nodyn cefndir iddi:

The tune opposite was sung by Mr Roberts Mostyn ucha Llansannen Sept 1913 to Tra bo eglwys yn Llanelli a wenol fach yn hedeg ynddi We cannot catch the 2nd half of the penill. I expect you have it - also to Mynwent Eglwys

Cwpled agoriadol un o'r penillion telyn yw'r llinellau hyn ac fe'i ceir, er enghraifft, dan rif 429 yn *Hen Benillion* T. H. Parry-Williams, ond yng nghofnod Ruth Lewis yma ni chynhwysir geiriau o gwbl o dan nodau'r alaw. Eithr mae copïau eraill ohoni ar gael ym mhapurau Amgueddfa Werin Cymru ac yn un o'r rheini gwelir pennill cyntaf 'Mynwent Eglwys'.

Pam, tybed, na chyhoeddodd JLIW y gân yn y *Cylchgrawn*? Efallai nad oedd yn gyfarwydd â'r pennill cyfan sy'n dechrau, 'Tra bo eglwys yn Llanelli', ac iddo fethu â chael gafael arno ond, wedi'r

cyfan, gwyddai y gellid canu geiriau ‘Mynwent Eglwys’ ar yr alaw. Yr hyn sydd debycaf yw i’r gân rywsut lithro o’i gof ac yntau yn greadur â chymaint o heyrn yn y tân ganddo. Ceir digon o dystiolaeth fod hyn yn digwydd yn ei hanes fel golygydd. Meddylier am y gân fach hyfryd honno, ‘Hiraeth’, a gasglwyd ganddo ef ei hun, rywle ym Môn i bob golwg. Ni chyhoeddodd mohoni yn y *Cylchgrawn* a bu’n rhaid aros hyd 1933 cyn gweld ei chyhoeddi gan Grace Gwynedd Davies yn *Chwech o Alawon Gwerin Cymreig*.

Ni allaf yn fy myw beidio â chredu y byddai JLIW wedi croesawu’r gân fach hudolus hon i’r *Cylchgrawn* pe byddai’n dal yn fyw o flaen ei feddwl. Ac y mae’n werth nodi, gyda llaw, na wn i ddim am unrhyw alaw arall sy’n perthyn iddi. Yn sicr ddigon, mae’n wahanol i’r bedair alaw sy’n gysylltiedig â geiriau ‘Mynwent Eglwys’ yn rhifynnau’r *Cylchgrawn*.

Tra bo eglwys yn Llanelli



Tra bo eglwys yn Llanelli
A'r wennol fach yn hedeg drosti
A thra bo gwyngalch ar ei thalcen,
Caraf i fy siriol seren.

YR ASYN A FU FARW

Yr unig nodyn cefndir yma yw ‘Roberts Mostyn Ucha Llansannan Sept 1913’. Mae’r gân yn gwbl wahanol i’r un a gysylltir â Bob Roberts, Tai’r Felin, ac y mae i hon hithau ei sigl a’i hwyl, ynghyd â saith pennill. Fel hyn:

Yr Asyn a fu farw

Yr as - yn a fu fa - rw___ Wrth gar - io glo i Fflint. E -
A ffal di ral di do___ A ffal di ral di di___ A

nill - odd mewn saith mly - nedd Dros bed - war u - gain punt.
ffal di ral di ral di ral di ral di ral di.

OR

2. Nid oedd yna na chlochydd
Na pherson o fewn un lle
I roddi i mul druan
I orwedd yn y bedd.

3. A Johny o’r Foty dirion
A ddaeth i gladdu’r mul
Fe fwriodd arni gerrig
A thipyn bach o bridd

4. A Johny aeth i fyny
I fyny ryw glyn gul
Gan dyngu ar ei enaid
Na chladdai fyth mo’r mul

5. Y mul yn codi fyny
A Johny’n ei phwyso i lawr
A thyngu gwaeddi croch a rhegi
‘Wel dyna helynt mawr’

6. A Johny aeth i weddi
A honno’n oedd weddi tlawd
A ddagrau yn ei lygaid
Wrth gladdu ful ei frawd

7. A mul yn codi i fyny
A olwg tu a’r nen
Ar bobl oll yn gwaeddi
‘Haleliwia byth Amen’

DERYN DI PIGFELEN Flintshire Variant.

Dyma'r nodyn cefndir: 'DERYN DU old man at Halkin this is the Flintshire variant Same words 'Pan own i foreuddydd'.' Ni chynhwyswyd geiriau yma o gwbl ond o ganu'r alaw mae'n amlwg mai geiriau 'Y Bore Glas' oeddynt:

[Derin di pigfelen] Y Bore Glas



[Pan o'wn i ar foreuddydd
Ar laswyn y dydd,
Yn rhodio glas y coedydd
A'nghalon i yn rhydd,
Clywn i'r deryn du pigfelyn
Yn canu yn y dyffryn,
A finnau'n ei serchu
Yn y gwydd.]

(Pennill o Ancient National Airs of Gwent and Morganwg)

DAU ROSYN GOCH.

Nodyn cefndir:

'...sung by Benjamin Davies over 80. Cefnlllechwedd Trefach Cardiganshire June 1913. There are many verses - some not suitable for polite society - I only have these decent ones but the (?) who can be had Mrs Ellis has the promise of the 'whole poem'.' Gwaetha'r modd, ni welais yr 'whole poem' yn unman ymysg y papurau.

Unwaith yn rhagor dyma ffurf ddiddorol o'r 'Eneth ffein gu' (a rhoi iddi y pennawd arferol) gwahanol o ran alaw i'r rhai cyhoeddedig yn y *Cylchgrawn*. Yn un peth mae'r rheini yn y modd lleiaf tra bod hon yn y modd mwyaf. At hynny mae'r cytgan o flaen y pennill ynddi ond dichon mai llithriad damweiniol yw hynny. Sylwer hefyd nad yw'r bario yn gywir.

Dau rosyn goch



CAN YR ASYN.

Ymddengys i hon gael ei chanu rywbyrd yn ystod Mehefin 1913 gan henwr dall o'r enw James Thomas, Gellinewydd, Gwyddgrug, Pencader, sir Gaerfyrddin. Yn y nodyn cefndir cawn y geiriau hyn: '...there are more verses on phonograph but not distinct enough to get down. Perhaps the words may turn up'.

Dengys enghraifft gampus o gymysgu geiriau dwy gerdd gyda'r pennill cyntaf yn dod, mi dybiwn i, o faled yn disgrifio digwyddiad trychinebus - damwain o ryw fath - a'r ddau bennill dilynol yn perthyn i gerdd ddigrif yn disgrifio claddu asyn; sy'n esbonio enw'r gân, mae'n siwr. Oherwydd fy mod i'n awyddus i gael fy mhump ar y faled a'r gerdd ddigrif, penderfynais fynd at lygad y ffynnon a rhoi galwad ffôn i'r cyfaill Tegwyn Jones. Gwaetha'r modd, nid oedd yntau, chwaith, wedi dod ar draws cerdd yn adrodd am drychineb cysylltiedig ag unrhyw 'Swansea Vale' ac nid oedd yn gyfarwydd â'r gerdd ddigrif. Felly, drws caeedig yn y fan fwyaf tebygol iddo fod ar agor. Eithr pwy a wŷr? Efallai y daw'r naill neu'r llall, neu'r ddwy, i'r fei rywdro.

Yn y cyfamser roedd gan Tegwyn awgrym tra diddorol i'w wneud ynglŷn ag enw lle sy'n digwydd yn nhrydydd pennill cân yr hen James Thomas. Yn ôl hwnnw claddwyd yr asyn druan ym 'mynwent plwyf Llangellwain' a digwyddais ddweud wrth Tegwyn fod yr enw hwnnw yn un trybeilig o ryfeddol! 'Tybed,' atebodd yntau, 'nad "Llangellwair" ddylai e fod'.

Wel, rhagorol onid e? Wedi'r cyfan, gwrando ar yr hen frawd

yn canu ar y ffonograff yr oedd Ruth Lewis a'i chwmni a hawdd iawn fyddai i 'Llangellwair' swnio iddyn nhw fel 'Llangellwain' mewn amgylchiadau felly. Ac y mae'r enw-gwneud yn cyd-fynd yn ardderchog gydag adroddiad am gladdu asyn mewn mynwent. Cellwair - tynnu coes - yw'r cyfan.

Am yr alaw gellir yn bur ddiogel gynnig mai un benffordd ydyw; hithau yn gymysgedd o frawddegau cerddorol o sawl alaw faled. Fel y gwelir hi yma mae cam-acennu dybryd ar air yn y ddau far olaf ond un, eithr mewn ffurf arall arni yn llyfrgell Amgueddfa Werin Cymru ceir acennu cwbl gywir trwy newid 'Fuodd ar Swansea Vale' i 'Fu rioed yn Swansea Vale'. Mae peth newid ar y ddiweddeb hithau.

Fodd bynnag, gall y newid hwn gymhlethu pethau. Pa arddodiad, tybed, a ganwyd gan yr hen ŵr: ai 'ar' ynteu 'yn'? Gallai 'ar Swansea Vale' olygu fod y ddamwain wedi digwydd ar, dyweder, reilffordd o'r enw 'Swansea Vale'. Yn wir, yr oedd, ar un adeg, reilffordd o'r enw hwnnw yn rhedeg trwy Gwm Tawe. Ar y llaw arall, gallai 'yn Swansea Vale' olygu fod y ddamwain wedi digwydd mewn rhyw fan arbennig yn y Cwm.

Gymaint bendith a fyddai darganfod copi o'r hen faled.

Can yr Asyn

Tri - gol-ion bro a bryn-iau a phawb yn ddi-wa - han Cyd
 nes-wch ym-a'n gry-no l wran-do hyn o gan Rhyw ha-nes ar ddam -
 wein-iau Sy'i gly-wed nos a dydd O he-rwydd hyn mae lla-wer yn
 teim-lo'i Bro-nau'n brudd Rhown ha-nes yn ddi-gel i ga-dw i'r rhai a
 ddêl Am un o'r prif ddam - wein-iau Fu - odd ar Swan-sea Vale

2. Ar foreu dydd yr angladd
Doedd tyrfa fawr ynghyd
I roi'r gymwynas ola
I ro'i gorph e yn y byd
Roedd pob un ynon wylo
Heb neb yn gwneuthur gwên
Wrth weld y corph yn gorwedd
Islaw i'r gwt yr ên.

Chorus

Rhowch etc.

3. Ym mynwent plwyf Llangellwair
Fe gladdwyd dan y gwys
A phob un o'r perthnasau
A deimlent alar dwys
Ac yno bydd yn gorphwys
Nes codi'r seren ddydd
A chael pedolau newydd
A'i draed yn rhodion rhydd

Chorus

Rhowch etc.

MYNWENT EGLWYS - TALLY HO.

'Mynwent Eglwys' yw'r pennawd ar y cofnod cerddorol ond 'Tally Ho' a geir yn enw ar y gân yn y nodyn cefndir - sy'n dweud hyn: 'This is very funny. Sung by Mrs Thomas Llandyssul June 1913 after hearing my "Mynwent Eglwys". This was all the tune repeated over and over again. Miss Mary Hughes took it in solfa as the record was very poor.'

Priodol iawn y sylw - wyth bar yn cynnwys llinell a byrdwn a ail-genir dro ar ôl tro. Ac eto, effeithiol dros ben. Undonog? Wel, byddai'n rhaid canu nifer o benillion i roi prawf ar hynny.

Rwy'n siwr eich bod i gyd yn gofyn yn dawel fach i chi eich hunain - beth am y byrdwn Saesneg? O ble y daeth hwnnw? A oes cân Saesneg yn llechu yn y cefndir yn rhywle? Dichon bod, ond ar hyn o bryd rhaid i mi gyfaddef fy mod i yn y niwl yn llwyr. Dyna un rheswm dros gyhoeddi pethau fel hyn onid e? Gall fod yr ateb gan un o ddarllenwyr *Canu Gwerin*.

[Mynwent Eglwys] Tally ho I lost my love



[Mi fūm yn rhodio mynwent eglwys
Tally ho I lost my love
 Lle'r oedd cant o gyrff yn gorffwys
Tally ho etc.
 Trewais fy nhroed ar fedd fanwylid,
Tally ho etc
 Mi glywn fy nghalon fach yn symud]
Tally ho etc.

O BRA BOYS.

Yn ôl y nodyn cefndir: '...sung by a very old woman Sian who was exactly like an old witch & who lived at Bribwll Llandyssul in a quaint old thatched cottage. She was very frightened of the phonograph. I am sorry the other three verses are unfit for polite society & are consigned to their proper place wh. is not the Journal.'

Ym mhapurau Ruth Lewis yn llyfrgell Amgueddfa Werin Cymru ceir tystiolaeth bellach fod Siân Jones (dyna'i chyfenw) yn 94 mlwydd oed. Cofnodir hefyd y tri phennill na welwyd yn dda eu hanfon at JLIW, er eu bod bellach wedi eu trawslinellu yn ddigamsyniol! Adrodd y maent am sgwrs rhwng mab a merch. Mae'r mab, meddir, yn dweud rhyw 'eiriau breision wrth ei gariad' ac yn ymddwyn yn bur anniolchgar tuag ati er ei bod hi wedi ei fwydo a rhoi cwrw iddo. Serch hynny mae hi am ei gael yn gymar iddi.

Ymhellach, ymhlith y papurau hynny mae cofnod o'r alaw a'r pennill cyntaf, yn cyfateb i'r hyn a geir yma. Ond cyfyd y pennill hwnnw yntau un cwestiwn dyrys sef beth yw ystyr y geiriau 'pentre Buor' a welir yn y llinell gyntaf? Beth bynnag oedd enw iawn y pentre dan sylw mae'n debyg y dylai ddiweddu â'r sillaf '-ad', er

mwyn odli â ‘siarad’ ar ddiwedd yr ail linell. A mi dybiwn mai ‘O braf bois’ a fyddai ffurf gysefin y byrdwn bychan. Sut bynnag, dyma gân Siân Jones:

O bra boys

Row'n i'n rhod - io pen - tre Bu - or O bra boys

Pe glywn i fab a merch yn sia - rad O bra boys

Ar lan a - fon mewn lle dir - gel Ar fo - reu-ddydd ty - wyll ta - wel

Pan oedd y mab ar bwynt ym - a - dael O Bra boys.

Cyn symud i ystyried caneuon o ffynonellau eraill dylwn nodi bod saith o'r tair cân ar ddeg sydd yn y casgliad cyntaf hwn o eiddo Ruth Lewis i'w cael hefyd ar ddwy dudalen yn JLIW 61: Can yr asyn, Mi fum yn rhodio (neu Tally ho, I Lost my love), O bra boys, Merch o Bedlam, Row'n yn rhodio glan mor heli, Rhyw ddiwrnod mawr cynddeiriog (Hela Llwynog) a Can Hela. Yn llaw JLIW y mae'r cyfan ond does dim sy'n dangos pa bryd yn union y copïwyd y caneuon. Efallai ei fod wedi bwriadu eu cyhoeddi ryw bryd ond fel y gwyddom erbyn hyn ni wnaeth hynny, ar wahân i un ohonynt, sef 'Merch o Bedlam'. Cyhoeddwyd y ddwy olaf gan Ruth Lewis ei hunan yn 1934, yn ei *Second Collection of Welsh Folk-Songs*.

(B) Caneuon o ffynonellau eraill.

MI ES I'R PARLWR GORA.

Eisoës, yn Eitem I Bocs I, roedd JLIW wedi gwneud y sylw

canlynol:

1912 (June) Derlwyn Dwyrn sang for me “Cob Malltraeth” & said it is sung by Owen Parry, Ty’n y Gwynt. Capt. Roberts recited the full verse:-

Mi eis i fy mharlwr [gora] fel bum i ganwaith gynt
Mi welis hetia meibion fesul saith a phump.
Eis at fy mhriod anwyl gofynnais iddi hi
Beth oedd yr hetia meibion oedd yn fy mharlwr i.
Taw ffwl, catffwl - dwl a dall wyt ti,
Dwsin o botia fflowars a roes fy mam i mi.

Also to Mrs. Cath Owen (80) Taldrwst. See Baring Gould, *Songs of the West* No 30 ‘Old Wicket’. “I went into my stable to see what I might see”.

A dyna’r golygydd craff wedi gosod ei fys ar unwaith ar un fersiwn Seisnig o leiaf o’r stori werin gydwladol am y gŵr a gwcwalltwyd gan ei wraig (er mai ‘Old Wicket’ yw’r ffurf ar yr enw gan Baring Gould). Ond sylwer mai adrodd peth o’r stori a wnaeth y Capten. Beth am yr alaw i’r geiriau? Wel, daeth honno i law yn y man a hynny o fwy nag un lle.

Yn Eitem VII Bocs I, ceir ffurf arni o dan y pennawd ‘Mi es i’r parlwr goreu’, wedi ei chofnodi yn llaw Grace Gwynedd Davies, a gasglodd ran sylweddol o’i chasgliad hi o ganeuon gwerin, fel y gŵyr y cyfarwydd, yn ardal Dwyrn. Gwaetha’r modd does dim nodyn cefndir i’w chofnod hi o’r alaw hon na dim awgrym o enw’r sawl a’i canodd, y man lle canwyd hi na phryd y gwnaed hynny. Wrth gwrs, mae’n ddigon posibl i’r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn llythyr at JLIW yn amgáu’r gân dan sylw ac i’r llythyr hwnnw fynd ar gyfeiliorn wedyn. Efallai, yn wir, ei fod ar gael ymysg y papurau ac i minnau fynd heibio iddo yn ddjarwybod. Gallaf dystio’n bendant imi ddod ar draws y math yma o beth yn digwydd fwy nag unwaith wrth dyrchu trwy’r papurau hynny: y gân mewn un man a’r

llythyr cefndirol mewn man gwahanol.

Y gwir yw mai rhan o bennill yn unig a gaed gan y Capten. Mae fersiwn arall o'r gân ar gael, un gyflawnach, mewn ffeil las ym Mocs 57, ac un a dderbyniodd JLIW, rwy'n tybio, yn weddol fuan wedi iddo gyfarfod â'r Capten yn Nwyran. Ond, y tro hwn, mae'n debyg mai perthynas i'r Capten (ei ferch efallai) sef Mattie Roberts, a anfonodd gopi o'r gân i olygydd y *Cylchgrawn*. Yr oedd hi wedi ei chodi o ganu hen wraig o Ddwyran. Dyfynnaf o'i llythyr:

The old lady sings the whole of 'Mi es i'r parlwr gora' & on the above refrain as far as I am capable of copying it out...'

Aeth Mattie Roberts hithau ychydig ar goll wrth fario'r alaw a chynnwys nodyn bach dros ben tua'r diwedd. O ddilyn ei chais yn ffyddlon, rhaid newid mymryn arno wrth ei ganu.

Yn ôl Mattie Roberts, canai'r hen wraig 'y cyfan' o'r gân ond gŵyr y cyfarwydd fod mwy i'r gerdd na'r penillion a geir yma. Serch hynny, roedd ei fersiwn hi'n nes at y ffurf gyflawn arferol oherwydd ei bod yn canu dau bennill llawn o leiaf.

Beth bynnag am hynny, dyma eiriau'r Capten ac alaw Grace Gwynedd Davies. Bu mymryn bach o olygu arni - rhaid gwneud hynny er mwyn canu'r geiriau fel yr adroddwyd hwy.

Mi es i'r parlwr goreu (Grace Gwynedd Davies)



Mi eis i fy mharlwr gora
Fel bum i ganwaith gynt,
Mi welis hetia meibion
fesul saith a phump.
Eis at fy mhriod anwyl
gofynnais iddi hi
Beth oedd yr hetia meibion
oedd yn fy mharlwr i.
Taw ffwl, catffwl - dwl a dall wyt ti
Dwsin o botia fflowars
a roes fy mam i mi

Mi es i'r parlwr gora (Mattie Roberts)



1. Mi es i'r parlwr gora, / Lle bum i ganwaith gynt,
Roedd yno goba¹ gleision, / Fesul saith a phump.
Es at fy anwyl briod, / Gofynais iddi hi,
Beth oedd y coba gleision, / oedd yn fy mharlwr i.
Ai dwl ai dall yw'r cadffwl? *Ai drwg a welaist ti?*
Ond deuddeg o ynau² metal³, A yrodd fy mam i mi.
Mi rodiais bart o Sgotland, / A Llundain brafia'i bri,
Y ffasiwn o ynau metal, / Erioed nis gwelais i.

1. coba = overcoat

2. gown ynau = gowns

3. metal = stuff, homemade woollen material used for clothing

(parlwr)

2. Mi es i'r stablau gora, / Lle bum i ganwaith gynt,
R'oedd yna geffylau gleision, / Fesul saith a phump.
Es at fy anwyl briod, / Gofynnais iddi hi,
Beth oedd y ceffyla gleision, / Oedd yn fy mharlwr i.
Ai dwl ai dall yw'r cadffwl, / Ai drwg a welaist ti?
Ond deuddeg o gwn hela, / A yrodd fy mam i.
Mi rodiais bart o Sgotland, / A Llundain brafia'i bri,
Pedolau dan gwn hela, / Erioed nis gwelais i.

Mi es i'r parlwr gora,
Lle bum i ganwaith gynt,
R'oedd yno goba (1) gleision,
Fesul saith a phump.
Es at fy anwyl briod,
Gofynais iddi hi,
Beth oedd y coba gleision,
Oedd yn fy mharlwr i.
Ai dwl ai dall yw'r cadffwl?
Ai drwg a welaist ti?
Ond deuddeg o ynau (2) metal (3),
A yrodd fy mam i mi.

Mi rodiais bart o Sgotland,
A Llundain brafia 'i bri,
Y ffasiwn o ynau metal,
Erioed nis gwelais i.

1) coba = *overcoat*

2) gown ynau = *gowns*

3) metal = stwff, *homemade woollen material used for clothing.*

Mi es i'r parlwr / stablau gora,
Lle bum i ganwaith gynt,
R'oedd yno geffylau gleision,
Fesul saith a phump.
Es at fy anwyl briod,
Gofynnais iddi hi,
Beth oedd y ceffyla gleision,
Oedd yn fy mharlwr i.
Ai dwl ai dall yw'r cadffwl
Ai drwg a welaist i?
Ond deuddeg o gwn hela,
A yrodd fy mam i.
Mi rodiais bart o Sgotland,
A Llundain brafia 'i bri,
Pedolau dan gwn hela,
Erioed nis gwelais i.

Er bod gan y golygydd bellach gân 'gyfan', am ryw reswm ni welwyd ei chyhoeddi ac ni fyddai'r gân, o ganlyniad, wedi dod i lawr inni heddiw oni bai am waith D. Roy Saer yn cofnodi ffurf arni ym Mynytho yn Nhachwedd 1964 ac yna'n ei chyhoeddi yn *Caneuon Llafar Gwlad* yn 1974 dan yr enw 'Cân y Cwcwallt'. Yn y gyfrol honno ceir hefyd nodyn cefndir rhagorol iddi a gellir felly hepgor trafod y cefndir hwnnw ymhellach yma.

Eithr mae'n berthnasol sylwi bod alaw y gŵr o Fynytho yn

wahanol i un yr hen wraig o Ddwyran ac y mae honno, yn ei thro, ychydig bach yn wahanol i un Grace Gwyneddon Davies, yn arbennig felly gan fod ei fersiwn hi yn gorffen ar Lah - m:r/d:l₁/l₁ (sydd fel pe byddai'n eich arwain at y pennill nesaf) tra bod un yr hen wraig yn gorffen ar Soh, yn gadarn derfynol - d:l₁/l₁:s₁/s₁.

O safbwynt cynnwys caneuon a cheinciau gwerin, y bocs pwysig nesaf yn archif JLIW, ar ôl Bocs I, yw Bocs 57. Y mae hwnnw'n gyforiog o ddefnyddiau, yn cynnwys, nid yn unig ail gasgliad gan Ruth Lewis, ond hefyd ddetholion JLIW ei hun o gasgliad John Morris. Ni wnafr ond nodi rhyw dair cân arall anghyhoeddedig o'r bocs hwnnw, yn ôl trefn bresennol eu hymddangosiad ynddo, gan fynd heibio am y tro, i ddeunydd John Morris sy'n dod gyntaf.

CNUL Y CLADDU

Oddi mewn i un o'r tair ffeil-focs sydd i'w cael ym Mocs 57 (a gw. Catalog, Llyfr 1, tt. 72-3) y mae dwy daflen ddyblygiedig mewn sol-ffa yn cynnwys dwy eitem a ddisgrifir gan JLIW fel 'Enghreifftiau o ganu hynafol yr Eglwys - Lleya Môn'. Gwaetha'r modd dyna'r cwbl o sylw cefndirol a geir ond mae'n rhesymol derbyn, fe dybiwn i, fod y gân a elwir ganddo yn 'Cnul y Claddu' wedi goroesi o fewn y traddodiad llafar. Dyma hi:

CNUL Y CLADDU.

{ d:-s₁:- | d:d|l₁:- | d:d|t₁:- | d:d|:-:- }
Ding, dang Fy sy'n dod Ar y brust e-lor?

{ d:d|s₁:- | d:d|l₁:- | d:d|t₁:- | d:d|:-:- }
Heb ei dir, heb ei dai, Sgwmier Tre fac-lor

{ d:-s₁:- | d:d|l₁:- | d:d|v:- | v:d|:-:- }
Ding dang, clowch ag ef, Sgwmhe ei le'n ba-rad;

{ d:d|s₁:- | l₁:l₁,m₁:- | s₁:d|v:- | d:d|:-:- }
Swely pridd, gwelad beidd Diwedd pob nychdod.

Tybed ymhle yr oedd, neu y mae, Trefaelor? Chwiliais yn llyfr mawr Peter Smith sy'n ymdrin â thai hynafol Cymru, ond ni ddeuthum ar draws yr enw yno. Gwelais fod tŷ o'r enw 'Trefaelor' yn sir Faesyfed, ond sylwer mai â Llŷn neu Fôn y mae JLIW yn cysylltu'r gân. Byddai goleuni ar y mater hwn yn dra derbyniol.

Ni wn ond am un gân arall debyg i hon a chodais honno oddi wrth Mrs. Tibbott unwaith yn un o gynadleddau'r Gymdeithas Alawon Gwerin. Cân, meddai hi, a ddysgodd yn blentyn yn ardal Llandysul; a dyna'r cyfan o gefndir a gefais ganddi. Y mae'r gân hon eto, hyd y gwn i, yn anghyhoeddedig:

CARIWCH FY NGHORFF

{ l, l, l, m - m | r, d, r, m - - }

Cariwch fy nghorff Ac ench ag e'i ffordd

{ l, l, l, m, m, n | r, d, r, m - - }

Heib-i'r tŷ la-fawr Ac at y Tŷ Gorrdd;

{ l - l, m - m | l - l, m - - }

Pen-cod Foll A'r Ge-ll Fawr

{ l, l, l, m - m | r, d, l, l, - - }

Ac yn hlan-dy-sul Borch fi i laor.

Ar y cychwyn cyfeiriais at flerwch cofnodi ar ran rhai pobl a anfonai ganeuon at JLIW ac enghraifft ragorol o hynny yw cerdyn ac arno dair alaw ynghyd â rhai geiriau. Dyma nhw: 'Yr hen wr mwyn', 'Yn ty ni mae cwrw da' a 'Y saith rhyfeddod' Does yna ddim dyddiad ar y cerdyn nac enw anfonydd.

Mae gwerth arbennig mewn dwyn y rhain i'ch sylw oherwydd bod hynny'n ffordd o roi syniad da ichi am rai o'r anawsterau golygyddol a wynebai JLIW ac, o ganlyniad, unrhyw ddarpar-olygydd o'i bapurau. (Gw. Catalog, Llyfr 1, tt. 90-1).

YR HEN WR MWYN.

Ceir cofnod sol-ffa digon ffwrdd-â-hi o 'Yr Hen wr mwyn' ond hawdd gweld mai yr un yw'r alaw yn ei hanfod â honno a gyhoeddwyd yn y *Cylchgrawn* I, 82-3. Gallwn felly fynd heibio

iddi yn y fan hon.

YN TY NI MAE CWRW DA.

Eithr gwelir mwy nag un fersiwn ym mhapurau JLIW o'r gân a elwir yn 'Yn ty ni mae cwrw da', serch na chyhoeddwyd unrhyw ffurf arni yn y *Cylchgrawn* ac, yn sicr, doedd y defnydd sydd ar gael yn y cerdyn hwn ddim o unrhyw gymorth i'r golygydd. Yn un peth mae'r geiriau yn anghyflawn ac at hynny mae'r sol-ffa yn bur anobeithiol, er bod yr adlais amlwg o 'Bugeilio'r Gwenith Gwyn' mewn rhan o'r alaw yn awgrymu amseriad posibl. Sut bynnag, dyma'r cofnod ichi, a'i frychau i gyd:

YN TY NI MAE CWRW DA

d: d.m: - d.r: r.d d: , m.s: m: s.s:

f: l.l: - f: m: m.s: - l: s: m.r: m.v: d

A dyma weddill y geiriau fel y gwelir hwy ar y cerdyn:

(2) Faint yw pris y cwrw da &c.

(3) Tair ceiniog yw'r cwrw da; chwech yw pris y brandy
Saith a chwech yw'r ferch fach dlos &c.

(4) Gewch chwi y cwrw da &c.

Y SAITH RHYFEDDOD.

Yn y *Cylchgrawn* y mae dwy alaw wahanol ar gyfer canu geiriau 'Y saith rhyfeddod' ac, yn wir, ar dudalen 143 o'r gyfrol gyntaf tystia'r golygydd:

There must have been a great number of tunes to which these words were sung; out of the half-dozen in the Editor's possession the two here quoted illustrate widely different types.

Efallai fod yr un sydd dan sylw yma yn un o'r hanner dwsin a oedd ganddo mewn golwg wrth ysgrifennu'r nodyn hwn ond boed hynny

fel y bo, does dim amheuaeth nad yw hon eto yn alaw wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd.

Dyma hi, fel y mae ar y cerdyn, gyda'r saith pennill, ac y mae angen cryn olygu wrth ganu unwaith eto:

Y SAITH RHYFEDDOD

$s, m : d, d : m, f : s, s : l, s : f, s : l : d, t : s : -$
 $s, d' : t, d' : t, d' : s, m : \hat{r} \dots \hat{s}, m, d$

Do mi glywais bore echdoe
fod llong o blwm yn nofio'r tonau
Llong o gyras yn suddo i'r gwaelod
Dene chi un o'r saith rhyfeddod.

Ac mi glywais fod y petris
ar lan y mor yn chwarae Chinese
ac yn chwarae set mewn diwrnod
Dene chi ddau o'r saith rhyfeddod.

Ac mi glywais fod y cryman
ar y maes yn medi'i hunan
ac yn medi cefn mewn diwrnod
Dene chi dri &.

Ac mi glywais fod y ddylluan
ar y mor yn cadw tafarn
ac yn gwerthu chwart am geniog
Dene chi bedwar &.

Ac mi glywais fod y mochyn
ar y car yn llwytho rhedyn
ac yn llwytho llwyth mewn diwrnod
Dene chi &

Ac mi glywais fod y glomen
yn yr ysgol yn dysgu darllen
ac yn dysgu gwerau mewn diwrnod
Dene chi chwech

Ac mi glywais fod y wenol
ar fast y llong yn gosod pedol
morthwyl aur ac enion *[sic]* arian
Dene'r saith rhyfeddod allan.

Wrth ymchwilio fwyfwy i'r dogfennau sy'n perthyn i orffennol y Gymdeithas hon, mae'n amlwg fod yn eu plith nifer o ganeuon a cheinciau traddodiadol na welsant eu cyhoeddi, am amrywiol resymau. Un casgliad o bapurau yn unig yw casgliad mawr JLIW a gellir ychwanegu at hwnnw rai Mary Davies a Ruth Lewis.

Beth bynnag am y posibilrwydd o ddod ar draws rhagor o gasgliadau, mae digon o her ar ein cyfer fel Cymdeithas ym modolaeth y tri chasgliad hwn ar hyn o bryd, a hoffwn osod nod i'r Gymdeithas, trwy rai o'i haelodau mwyaf ymchwilgar, i gywain y caneuon anghyhoeddedig sydd yn y casgliadau hyn yn benodol.

Awgrymaf ein bod yn neilltuo un sesiwn ymhob cynhadledd flynyddol ar gyfer gwahodd ymchwilydd i gyflawni'r gwaith hwn, gan gyhoeddi canlyniad yr ymchwili yn rhifynnau *Canu Gwerin*.

Gobeithio bod yr ychydig enghreifftiau a gyflwynwyd o archif JLIW yn ddigon i'n hargyhoeddi ni fod gwaith o'r fath yn werth ei wneud. Gallaf eich sicrhau bod digon o le eto i gloddio yn y chwarel arbennig honno.

CIP AR FALEDI JONATHAN HUGHES¹

Siwan Rosser



Jonathan Hughes o Langollen oedd un o faledwyr enwocaf y ddeunawfed ganrif yng Nghymru, ond nid oes fawr neb yn gyfarwydd â'i waith erbyn heddiw. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith i'w enw fynd yn angof yn rheswm dros ddiystyru gwaith Jonathan Hughes oherwydd dyma fardd a rydd gip i ni ar ddawn ddiymffrost y baledwyr a'u cyfraniad i gymdeithas a llenyddiaeth y ddeunawfed ganrif. Bwriadaf drafod enghreifftiau o'i waith yn y man, ond rhaid yn gyntaf amlinellu'r feirniadaeth, neu ddiffyg beirniadaeth, a fu ar y faled yn gyffredinol, er mwyn egluro tynged baledwr megis Jonathan Hughes.

Er ein bod yn tueddu i feddwl am y faled fel cân naratif, storiol, ni ddylid cyfyngu'r faled i unrhyw ddiffiniad penodol. Yn wir, gellir synied am y faled yn y ddeunawfed ganrif fel unrhyw gân rydd, nad ydyw yn garol, i'w chanu ar alaw boblogaidd. Mae'r faled, felly, yn cwmpasu nifer o feysydd eang, ond ar wahân i'w harddull rydd y mae un nodwedd arall yn cysylltu'r baledi amrywiol ynghyd, sef eu cyfoesedd. Wrth foli uchelwr neu adrodd am lofruddiaeth, mae'r

baledi hyn oli yn ymateb i ddigwyddiadau'r dydd a fyddai o ddiddordeb i gynulleidfa'r cyfnod.

Ond, yn anffodus, mae'r cyfoesedd hwnnw, a safon anghyson mynegiant nifer o'r cerddi wedi peri na chafodd y faled sylw haeddiannol gan feirniaid llên Cymru. Er mor werthfawr yw cyfrolau beirniaid fel J.H. Davies a Thomas Parry, yn amlach na pheidio caiff y faled ei thrin fel agwedd ar hanes, nid llenyddiaeth.

Meddai J.H. Davies, er iddo roi'r fath egni i'r dasg o gatalogio'r baledi:

It would be absurd to claim any value for them as pure literature, though some of them would afford pleasure and enjoyment to lovers of the quaint and humorous if they were collected and reprinted.²

Bwriadaf ddangos yn y man bod mwy na '*quaintness*' a '*humour*' yn perthyn i faledi Jonathan Hughes. Mae iddynt arwyddocâd, a Thomas Parry oedd un o'r Cymry cyntaf i sylweddoli gwerth baledi'r ddeunawfed ganrif, ond eto, meddai ef:

Er nad oes iddynt werth llenydol, mae iddynt arwyddocâd, a lle pwysig iawn yn hanes hoedl ac angau'r traddodiad barddol yng Nghymru.³

Ery gallwn ddeall byrdwn ei ddatganiad, fe'i geiriodd mewn modd sy'n diraddio'r faled fel *genre* nad yw o werth lenyddol. Dyma agweddau a gynhaliai'r syniad fod y fath beth â gwerth llenyddol oesol yn bod, a chanon Cymraeg yn asgwrn cefn i'r cyfan, canon a roddai bwyslais ar agweddau megis crefft y gynghanedd, neu ysbrydoliaeth Fethodistaidd, gan roi o'r neilltu gymaint o weithiau a berthynai i'r dosbarth is, neu hyd yn oed i ferched. Hyd heddiw, nid oes sôn yn y dosbarthiadau Lefel 'A' am Gwerful Mechain neu'r

Hen Benillion.

Yn yr un modd, ni chaiff baledi niferus y ddeunawfed ganrif sylw manwl, eithr cymerir yn ganiataol nad oes iddynt unrhyw arbenigrwydd, mai cyffredin yw'r cyfan, ac mai Twm o'r Nant yn unig a esgynnodd i dir uwch. Ond wrth i ni, ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, gymhwyso syniadau'r hanner canrif diwethaf am feirniadaeth i fyd y faled, gallwn ddangos bod gwerth llenyddol a hanesyddol i'r *genre* hwn o farddoniaeth gan ddangos mai artiffisial yw unrhyw ganon llenyddol. Chwiliwn am lais yr arall felly, sef baledwr a anwybyddwyd ers dros ganrif, a chwalwn y syniad o safon lenyddol fel peth sefydlog.

Ond er mwyn hybu darllen ac astudio baledi, rhaid cael rhyw lun ar gasgliad hwylus, ond nid oes yr un ar gael yma yng Nghymru. Mae'r sefyllfa yma'n warthus, yn enwedig o'i chymharu â sefyllfa'r faled daflennol yn Lloegr, a gafodd ei chondemnio oherwydd gwaeledd ei llun a'i chwaeth ond sydd bellach yn faes ymchwil o fri. Dengys y beirniaid Saesneg inni na ddylid dibrisio llenyddiaeth y stryd, oherwydd mae honno, yn ogystal â'r farddoniaeth glasurol, hefyd yn rhan o'r profiad dynol.

Dyma'r modd y mae Leslie Shepard yn cyfiawnhau darllen ac astudio'r baledi taflennol:

There are as many ballads as pebbles on a beach, and they are of all sorts and shapes. Just as we collect new experiences and compare them with old ones, so we collect old and new songs to learn a little more about life. And collect we must, before these fragments pass away.⁴

Er mwyn gwerthfawrogi llenyddiaeth boblogaidd y cyfnod, rhaid felly dwrio am y cregyn amrywiol hyn. (Pwy a ŵyr, gallai hynny dynnu sylw ysgolheigion tramor at Gymru fel gwlad a fabwysiadodd

y faled ryngwladol, yn ogystal â dyfynhau'n dealltwriaeth ni o fywyd diwylliannol y ddeunawfed ganrif).

Jonathan Hughes a'r Faled

Fodd bynnag, tuedd ysgolheigion Cymru yw peidio ag edrych ar bob cragen yn ei thro, ond credu mai unffurf ydoedd beirdd gwlad y ddeunawfed ganrif. Nawr, ni ellir gwadu fod y beirdd gwlad hynny yn ymddangos fel pe baent yn ffitio i fowld arbennig. Eglwyswyr yw'r mwyafrif, perthynant i gymdeithasau gwledig, amaethyddol a chanant i'w cymdeithas gan gyflawni dyletswyddau drwy ganu mawl a marwnad, cynnig arweiniad gyda'u carolau, a diddanu gyda'u hanesion digrif.

Y mae Jonathan Hughes yn ymgorfforiad o'r nodweddion hyn, ac yn fardd a hanai o gadarnle'r faled yng Nghymru. Fe'i ganwyd yn nhyddyn Ty'n y Pistyll ar ystâd Pengwern ger Llangollen, ac yno y treuliodd ei oes gyfan, o 1721 hyd 1805.

Ond *oherwydd* ei fod yn ymddangos yn baragon o fardd gwlad y mae'n haeddu ystyriaeth bellach, er mwyn dangos nad unffurf oedd syniadau nac arddull pob bardd gwlad, er mwyn amlygu dylanwad ardal ar fardd, a phrofi y byddem ar ein colled pe na ddarllenem eu gwaith.

Nid oes amheuaeth mai Jonathan Hughes oedd un o faledwyr mwyaf adnabyddus y gogledd-ddwyrain yn y ddeunawfed ganrif. Roedd yn eisteddfotwr o fri a bu'n allweddol yn ymdrech beirdd Cymru i ennill nawdd y Gwyneddigion yn 1789. Cyfansoddodd o leiaf ddwy anterliwt, dros dri chant o gerddi rhydd, ynghyd â lliaws o gerddi caeth. Ymddangosai'r cerddi hyn yn gyson ar glawr mewn llawysgrifau, llyfrynau baledol, blodeugerddi ac almanaciau. Yn wir, dengys ei gyfraniadau i almanaciau Cain Jones a John Prys faint ei boblogrwydd. Rhwng 1776 a 1795 ymddengys pedair cerdd ar bymtheg ganddo mewn pedair blynedd ar bymtheg o gyhoeddi

almanaciau Cain Jones, ac yng nghyfnod cyhoeddi almanaciau John Prys rhwng 1739 a 1784, ymddengys tair cerdd ar ddeg ar hugain o eiddo Hughes mewn pum mlynedd a deugain, cyfraniadau helaethach nag a geir gan unrhyw fardd arall.

Yn ogystal â hyn oll, cyhoeddwyd dwy gyfrol swmpus o'i waith, sef *Bardd a Byrddau*, 1778 a *Gemwaith Awen*, er bod amwysedd ynglŷn â faint o gerddi'r tad a faint o gerddi'r mab, o'r un enw, a ymddengys yn yr ail gyfrol a gyhoeddwyd yn 1806.

Ond er mor gynhyrchiol y bu, llethwyd Jonathan gan deimlad o israddoldeb a ddaw i'r amlwg mewn ambell gerdd, ac yn fwyaf arbennig yn ei ragymadrodd hynod ddiddorol i *Bardd a Byrddau*. Mae'n amlwg fod Jonathan yn ymwybodol iawn o ddiffygion ei addysg gynnar, oherwydd er iddo ennill cryn enwogrwydd yn fardd ifanc, gwyddai na chafodd hyfforddiant farddol drylwyr, a chredodd felly mai gwag oedd ei awen. Fel hyn y mae'n olrhain ei ddatblygiad fel prydydd yn y rhagymadrodd:

...pan oeddwn o ddeutu 20 oed dechreuais gael gwell gafael ar y gwaith, mi wnawn rigymmau yn fy nhyb fy hun, ac oedd yn ganu go hynod, ac y roeddwn yn dechreu rhyfeddu oblegyd fy ngwaith, tybio'n ddiau, yr awn i yn Brydydd, a hynny oedd fy naturiol ewyllys, ysgryfennu rhai rheffynnau o gan a'u danghos i eraill, a chael molach mawr a llawer o wag ogoniant gan y wlad, mynd ymlaen ymhellach o nerth hynny, a gwneuthur gwêdd chwerrig neu anterliwt, cael mwyfwy o folest, erbyn hyn roeddwn i wedi mynd yn ben Bardd; er na wyddwn i y pryd hwnnw am Farddoniaeth, na rheolau'r gelfyddyd na sylweddol ffurfiadau'r gynghanedd, nac enaid y gerdd: Ddim cystal ac y gwyddai llawer dyn na fedrai ganu dim.

Ac yn awr yn 57 oed, a chwedi gweled llawer iawn ychwaneg, a dal sulw ar amrywiol wrth-ddrychau Gramadegau, a geirlyfrau, gan dybio wrth hynny yr awn i'n ddoeth yn y gelfyddyd, ac o'r

diwedd mi aethym gan ddoethed a hyn; mi wela nawr nad wyfi
na phrydydd, na chymro, nac ysgolhaig, nid wyfi Brydydd o
herwydd i mi esgeuluso'r ddawn oedd ynofi, canys nid oedd
gennyf mo'r cymmaint o ffydd ac sydd gan yr aderyn.⁵

Dyma ŵr yn ei oed a'i amser, wedi gyrfa faith o farddoni yn gwadu
mewn gwirionedd ei fod yn fardd o gwbl, ac mewn baled arall
canodd:

Mi dybiais fy mod yn hynod fy hunan
Ac amcan dda gynt,
Nes cael fy nghynghanedd fel gwagedd a gwynt...
'Rw'i beunydd arben roi'm hawen rym hoyw i gadw'n y gell
Am na bae fy nghaniad a'i nyddiad yn well.⁶

Ac ar ben hyn i gyd, â Joanthan gam ymhellach ac amau ei
Gymreigrwydd yn ogystal â'i ddawn fel bardd:

Ac nid wyfi gymro, am fy mod yn gymmydog rhy agos i'r
saeson, canys hên arfer cymmydogion ydyw benthugio oddiar
eu gilydd, fellu finnau wrth ganu, mi fenthyciais fwy o eiriau
Saesonaeg nag a dalaf i fyth adref...⁷

Mae'n amlwg ei fod yn ymwybodol o effaith y Saesneg ar iaith lafar
dyffryn Llangollen yn y ddeunawed ganrif. Mewn cywydd
dywedodd:

Dysgais iaith Araith ddryys,
Cymraeg wan mor wag ar ûs,
A hono'n brin hanner braith,
Gam asgell o gymysgiaith.⁸

Cwyna Jonathan felly am ei ddawn i ganu barddoniaeth Gymraeg
goeth, ond ymddengys ei gwynion yn gwbl afresymol a

hunandosturiol wrth i ni ddarllen ei faledi. Er iddo arfer geiriau benthyg yn aml, nid ydynt yn llethu ei waith; er i'w ganu rhydd ymddangos yn herciog a goreiriog, mae iddynt rythm ganadwy. Yn syml, roedd Jonathan Hughes heb os yn fardd, ac yn fardd Cymraeg pur ddawnus. Gwrandawer ar y pennill hwn o garol plygain ar dôn Ffarwel Ned Puw yn trafod genedigaeth Crist:

A'i wir gnawdoliaeth glanwaith glod,
Hon yw y rhyfeddod fwya,
Er dechre'r greadigaeth faith,
A'r golwg waith dirgela,
Ac er nad yw y rhyfeddod hon,
Yn deg ger bron ein llygaid,
Gwir olwg ffydd a wel ei gwawr,
Fel pettai'n awr yn euraid,
Mari wen ydoedd yn dala Duw'r lluoedd,
Ac ynte'n dal nerthoedd ffurfafen y nefoedd,
A thiroedd a moroedd a mari,
Hi ddaliai ei hanwylyd ei phriod a'i phrophwyd,
Ei thad a'i mab hefyd ei Duw a'i brawd hyfryd,
Yn cymryd ei febyd yn fabi.⁹

Canu o'r safon hon a enillodd edmygedd nifer fawr o'i gyfoedion ledled gogledd Cymru. Gwelir nifer o englynion o fawl iddo mewn llawysgrifau gan feirdd megis John Roberts a Dafydd Marpole a ddywedodd mai 'Athraw coeth burddoeth y beirdd' ydoedd Hughes iddynt.

Y mawl mwyaf dadlennol i Jonathan, o bosib, yw'r cywydd a luniodd Dafydd Ddu Eryri iddo. Wrth gofio i Jonathan brotestio na fedrai'r gynghanedd, dengys y cywydd hwn ei fod mewn gwirionedd yn fardd medrus a lwyddodd i ennill edmygedd a chyfeillgarwch yr arch-gynganeddwyr hwnnw o Eryri. Anodd yw credu mai ffalsio y mae Dafydd yn y llinellau hyn:

Jonathan, wiwlan ei wedd,
Gŵr enwog mewn gwirionedd...
Perchen awen gymmen gall,
Un burach na neb arall:
Dilys neu felus foli,
Duw lân, orau tôn wyt ti,
Nid canu gwawd molawd merch,
Ac ynfyd foli gwen-ferch;
Nid rhoi ar led faledau,
Llawn gw'radwydd neu gelwydd gau,
Moli'r lân aml ei ras,
Cu fuddiol waith cyfaddas.

Prydydd pur eilydd pêr wyt,
Lliwdeg, fy nghyfaill ydwyt,
Medrus wyt mewn mudr-iaith,
Blodeu-gerdd awen-gerdd waith,
Gwyddost ti ŵr gweddus teg,
Yr iaith ddi lediaith loyw-deg.¹⁰

Canodd Dafydd englynion coffa uwchben bedd yr henwr o Langollen hefyd, a bardd arall a ganodd i'w goffáu ydoedd Twm o'r Nant, gŵr nes o ran oedran i Jonathan, ond ymddengys nad oedd rhyngddynt yr un cyfeillgarwch. Chwerw, yn wir, oedd perthynas y ddau.

Yn sicr, byddai'r ddau faledwr yn adnabod ei gilydd yn dda. Byddent yn mynychu'r un eisteddfodau a thafarndai, a chawsant ill dau ymgeledd gan glocsiwr Pentrefoelas, Siôn Dafydd Bersen. Ond mae'n amlwg i unrhyw ymryson ysgafn rhyngddynt fel beirdd droi'n gynnwys bersonol wrth i eiddigedd, o bosib, ennyn y ddau i daflu sen at ei gilydd. Hoffwn adrodd ychydig am y berthynas helbulus hon er mwyn amlygu rhai o brif syniadau Jonathan ynglŷn â barddoniaeth a gwleidyddiaeth. Cofnododd Thomas Jones yr hanesyn hwn sy'n

amlygu mor chwerw oedd eu perthynas, mewn llythyr at William Owen-Pughe ym Mehefin 1789:

I mae Twm o'r Nant wedi canu yn chwerw iawn i Jonathan Hughes, oherwydd rhyw hen ddadl ac ar ol taflu eitha chwidod (*sic*), fe ofynodd i'r hen wr yn ddiwedd[ar] yn Llangollen, a nai o ysgwyd llaw ag ef – nana'n wir ebe yr henwr yn awr, ond na hwyrach y gwnai i ar ol tynnu peth ar fy ogau trwyth gwaith.¹¹

Ni chaiff Twm faddeuant felly nes i Jonathan ddial arno drwy ddychanu ei waith yntau, er y myn Hughes mewn baled arall mai peth amharchus a hyll ydyw tuedd Twm i ddefnyddio ei gelfyddyd i ddifrio a thafu sen. Yn y faled honno dywed Jonathan, o'i dir egwyddorol uwch, mai 'Gwael anian gelyniaeth yw gweniaith a gwawd' ac mai 'dull gabal' yw eiddo Twm 'yn dall geibio ddim ond i bigo bai'. Mae Jonathan yn ymosod ar ddiffyg parch Twm at y traddodiad y perthynai iddo – 'Doedd tlws waith Taliesin ond eisin gan ti', a'i ergyd galetaf yw'r honiad nad didwyll mo safiad crefyddol Bardd y Nant:

Taflu marwor tanllyd yn chweinllyd wrth dy chwant;
A'th gariad efengylaidd gwir sylwedd geiriau sant:
Ond dant am ddant yw dy ddull,
Da dyb yn ei harddwch a'i diben yn hyll.¹²

Mae yma ddeuoliaeth yn agwedd Jonathan. Ar y naill law mae'n barod iawn i ymosod yn ffyrnig ar Twm o'r Nant, ond ar y llaw arall y mae'n ceisio cynnal rhyw safon farddol, rhyw barch at yr iaith a'r grefft sy'n peri mai annerbiniol ganddo yw rhai o ganiadau enllibus Twm o'r Nant. Ond er gwaethaf hyn oll, rhaid iddo gydnabod dawn ac enwogrwydd Bardd y Nant:

Nid wyf yn diddymmu dy ganu di i gid,
Mae sain dy gynghanedd yn beraidd trwy'r byd.¹³

Ond nid am farddoniaeth yn unig y bu'r dadlau. Roeddynt yn tynnu'n groes i'w gilydd ar bynciau gwleidyddol hefyd, yn fwyaf arbennig yn achos y dreth fedydd. Roedd John Thomas Pentrefoelas a Dafydd Ddu Eryri hefyd yn rhan o'r ddadl, wrth iddynt drafod cyfiawnder y dreth a roesai bris ar sacrament gysegredig. Yn ogystal â'r ddadl grefyddol amlwg, beirniadau Jonathan y dreth am mai'r tlawd a ddioddefai fwyaf yn ei sgil:

Y meinion wan werinos,
Sy'n chwsu o'r ochos hyn.¹⁴

Gwelwn yn y cerddi hyn fardd cryf ac argyhoeddedig, yn wahanol i'r prydydd hunandosturiol gynt, sy'n barod i leisio ei gŵyn yn erbyn y llywodraeth:

Os ceir hi yn gwyro o'i lle,
Rhoir briw yn llawer bron,
Pa awdurdod eill ein dwrdio,
Am gwyno rhag ein gwâsg?¹⁵

Ei hawl ydyw lleisio ei farn, ac os bydd hynny'n ei arwain i drybini, croesawa Jonathan ei gosb yn brawf o'i brotest:

Os gorfydd marw am gwynfan
Ar farn yn fuan fod,
Gadawn ar dir dystiolaeth glir,
Fe'n cleddir yn ein clôd.¹⁶

Ar y llaw arall, amddiffynna Twm o'r Nant y trethi am mai Duw a ordeiniodd y rhyfel â Ffrainc, felly hawl y llywodraeth 'berffaith' ydyw ariannu'r ymgyrch drwy drethu trigolion Prydain. Fodd bynnag, o ystyried agwedd haerllug Twm tuag at lywodraethwyr lleol, mae'n anodd llyncu'r ymlyniad taer hwn wrth y llywodraeth.

Fel hyn yr esboniodd Emyr Wyn Jones y sefyllfa:

Yn rhyfedd ddigon, cefnogai Twm awdurdod ‘y sefydliad’ ac yr oedd o blaid treth o’r fath, ond awgrymai Charles Ashton mai’r hyn a barodd iddo gymryd yr agwedd hon oedd ei ddiffyg cyfeillgarwch tuag at y beirdd eraill, ac nid unrhyw argyhoeddiad o gyfiawnder y dreth.¹⁷

Ni synnwn nad diffyg cyfeillgarwch at Jonathan Hughes yn fwy na neb a oedd yn gyfrifol am agwedd Twm, ond yr eironi mwyaf ynglŷn â’u perthynas helbulus oedd mai Twm o’r Nant a luniodd yr englyn a naddwyd ar fedd Jonathan Hughes. Chwalwyd y bedd ym mynwent eglwys Llangollen, ond mae’r englyn ar gael o hyd:

Am ddawnus gofus gyfan – wir sulwad
Ar sylwedd ddoeth gynghan,
Odid fawr yn llawr y llan,
Byth nytha bath Jonathan.¹⁸

Cyfeillion wedi’r cyfan?

Y Baledi

Hoffwn yn awr droi at rai baledi o eiddo Jonathan sy’n amlygu ymhellach ei ddawn fel bardd, ei syniadau cryf, a’i swyddogaeth o fewn cymdeithas a oedd yn araf golli cysylltiad â hen fyd y traddodiad barddol. Roedd hwnnw wedi dadfeilio ers yr ail ganrif ar bymtheg, ond mae’n amlwg nad oedd wedi diflannu’n llwyr.

Bardd cymdeithasol ydoedd Jonathan Hughes uwchlaw dim arall. Diddanu ei gymdeithas oedd ei brif swyddogaeth o hyd, ac fel ei gyfoedion, cynhaliodd yr arfer o ganu mawl, marwnad, gofyn a diolch er mai bonheddwyr ifainc Saesneg eu hiaith oedd testun ei fawl, ac mai gweddwon a thlodion oedd comisiynwyr ei ofyn.

Rwyf am fanylu'n arbennig ar un farwnad gan Jonathan sydd eto'n amlygu'r parhad a'r newid yn y traddodiad. Er ei fod yn canu ar ran ei gymdeithas, mae ym marwnadau Jonathan ddiwylliedd a gwir drasiedi oherwydd mae'r rhan fwyaf yn alarganeuon yn coffáu pobl ifanc a fu farw cyn pryd. Yn lle dim ond arfer y confensiynau o enwi'r marw, ei foli a chyfeirio at alar teulu, mae Hughes yn myfyrio ar freuder bywyd a'r angen am ddilyn buchedd lân, ac y mae gwrthrychau ifanc y baledi hyn yn rhoi i'r marwnadau drasiedi a thristwch a ddyfnheir gan y defnydd o alawon megis 'Trymder' a 'Cloch Alar'.

Dyma bennill agoriadol marwnad Elizabeth Griffiths o Fryn Howel ar y gainc 'Cloch Alar':¹⁹

Ffûn; ffûn fel unos daith, yw einioes dyn,
Rhag colyn angeu, sy wrtho ynglŷn,
Nid oes ûn a rêd;
Pob hen ag ifangc, gwan a chrŷ, cwaethogion a thlodion lu,
Synhwyrrol mwy na ffol, ni ffŷ i gastell siwr na thwr na thŷ,
Mae'n bywyd wrth y bwa du
Trwy angeu a'i rym y trenga'r iach, fe yrr ei bwys ar fawr a bâch.

Ar ôl y myfyrdod athronyddol hwn, canolbwyntir ar wrthrych y farwnad ei hun:

Hon hon oedd unig eneth loweth lon,
Bryn Howel fry, a'i breiniol fron,
A thirion radlon ryw,
Yn gangen deg yn bymtheg oed,
A'i gwasg fain drefn, ag ysgafn droed,
Aeth i'r ddaearen yn ddi oed;
Braw oedd ei chau dan bridd a choed,
I mewn yn rhwym, i'r man y rhoed,

Ei chorph i orwedd geufedd gwys
Llangollen dan ddaearen ddwys.

Mae hon yn farwnad ddiwyll llawn hiraeth a thristwch, fel cynifer o'i farwnadau eraill, er y dylwn bwysleisio bod gwydnwch ffydd Hughes yn peri iddo erbyn diwedd ei farwnadau dderbyn y marwolaethau fel rhan o Ragluniaeth Duw:

Na wylwn am y meirw mwy,
A ninnau a'n taith tu ag atynt hwy,
I'r Byd ysprydol nefol nwy,
Lle nad oes trais, na chlais na chlwy,
Ac nid oes wybod pennod pwy
O gant o'r bŷd a gynta i'r bêdd,
Neshawn ymlaen i *Seion* wlêdd.

Baledi Serch

Mae dwy brif ffrwd i ganu serch y ddeunawfed ganrif, sef canu masweddus yn null yr anterliwt a chanu mwy telynegol, ac mae'r ddwy ffrwd yn amlwg ym maledi Jonathan Hughes.

Megis y ffŵl ar ddechrau anterliwt, mae cynghorion Jonathan i ferched ifanc wyllo rhag mabiaeth meibion yr un mor goch a masweddus – ac y mae lluosogrwydd caneuon o'r fath yn dyst i'w poblogrwydd. Siofinistaidd yw agwedd Jonathan fel ei gyd-feirdd eraill, wrth iddo ddilorni a chondemnio merched gan esgusodi'r llanciau, ac nid oes rhamant i'w ddisgrifiadau o ymroi i serch fel 'tripio', 'syrthio' a 'chwympo'. Sylwer, er enghraifft, ar y teitl gogleisiol hwn: 'Cyffes gwr ieuangc aeth i garu ac nid oedd ei gariad ef ddim gartref, ond cafodd afael mewn un arall oedd gymdeithwraig iddi ac fe aeth att hon, ac fe ddigwyddodd iddynt warchad yn ddrwg, fel y mae yr hanes yn canlyn; i'w chanu ar Galon Drom.'

Mae, fodd bynnag, un faled sy'n codi uwchlaw y maswedd bas, sef

‘Cerdd cyffuriau a Physigwraieth i’r Merched’. Dewiswyd hon gan E. G. Millward i ymddangos gyda charol haf o eiddo Jonathan yn *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif*. Dengys y faled hon ddawn delweddu’r bardd ar ei gorau wrth iddo gynnig ei gyngor fel pe bai’n feddyg. Y mae’n arddel amryw o dybiaethau siofinistaidd ynglŷn â diffyg synnwyr cyffredin merched, ond caiff y cyfan ei gyflwyno gyda chryn ddychymyg a meistrolaeth ar fynegiant. Dyma bennill o’r faled i’w ganu ar ‘Ffarwel Brydain’:

Wns o sobrwydd o siop cyndynrwydd,
I g’ledi’ch ’mennydd lledrydd llwyd,
Briallu glendid, blodeu ieuengtyd,
I attal rhyddid, taflu y rhwyd,
Llysiau siampl, o bentref gofal,
A dail dwyn dial, magl merch,
Trip y forwyn a drych anffortun,
I oeri berwyn sydyn serch
Dail cydnabod parch morwyndod,
A gwerthfawr glod rhianod rhydd,
Dail cof daw cyfri, a’ch ceidw’n ddifri,
Rhag i chwi doddi nos ’na dydd.²⁰

Tra bo baledi o’r fath yn adlewyrchu dylanwad diwylliant y werin ar feirdd gwlad y cyfnod, mwy llenyddol ydyw cefndir eu canu serch telynegol. Mae awyrgylch y baledi hyn yn debycach i ganu serch y Cywyddwyr, ac y mae safon yr iaith a’r delweddu yn dangos ymdrech amlwg Jonathan i lunio baledi coeth, cywrain o’r un llinach.

Yn *Bardd a Byrddau*, ceir dwy faled o’r fath, ac mae’r naill mor gywrain â’r llall. Yn y gyntaf y mae’n moli ei gariad a chwyno am boenau serch mewn modd swynol ond digon confensiynol, tra bo dogn go helaeth o wreiddioldeb a diffuantrwydd yn yr ail.²¹ Drwyddi draw dyma faled fwy myfyrgar a diffuant wrth i Jonathan ddatgan, yn bur annisgwyl, mai cydradd yw gŵr a’i wraig:

Un dyn: Gan ddwylo Duw ei hun,
Yn ddau a dorwyd, a'r ddau'r un ffunud,
Yn ddau anwylyd, un lendid ac un lun.

Ac â ymlaen i'n hannog i ymroi i wir gariad a ffyddlondeb, ac mai
ofer

Yw rhoi'n serchiadau, ar gysgodau,
Anwadal bethau, fel llithrig donnau llynn,
A chwyth y gwynt ystormus
Fel manus ffordd y mynn.

Wedi'r myfyrdod hwn yn y penillion agoriadol, try'r bardd ei olygon
at ei gariad, ond ni cheisia hudo'r ferch ifanc drwy wau geiriau
celfydd ynghyd, a chyfeddyf mai arfer gwag fyddai 'canu byrdwn
drwy demptasiwn'. Hynny yw, cydnebydd Jonathan mor arwynebol
yw confensiynau'r canu serch, ac ni fyn eu defnyddio yma:

Nid â: I'th gyff'lybu i gangen ha,
Nag i'r planedau, na'r hen dduwiesau,
Na'r merched gorau,
Oedd bell mewn doniau da,
Hên chwedlau coeg celwyddog,
Llais euog nis llêshâ.

Ai cyfarch ei wir gariad a wna Jonathan yma felly? Sylwch ar y
llinellau hyn lle gofynna'r bardd i'r ferch ei briodi:

Mwy melus i'm na moliant,
Yw dweud y gwir yn bendant,
A gwyneb undeb,
O's mentri, meinir lywaith, heb weniaith,
Hoff lawendaith, cei ffyddlondeb.

Ni allaf lai na chredu mai diffuant yw'r faled hon, er na all y bardd, wrth gloi, ymatal rhag arddangos ei fedr barddol wrth ddeisyfu cwmni'r ferch:

Dewisais di o'r merched, i'th gael fy mun,
Wen gowled i mi'n ymgeledd,
A blin yw cerydd cariad,
A thremio ar dy lygad arail agwedd,
Dy liw: Tiriondeb gwyneb gwiw,
Dy raddol ruddiau, dy ddinam ddoniau,
Dy fêl wefusau, dy wiwlan aelau yw,
'R hudoliaeth megis delwau,
A weithie i'm bronnau'r briw,
A rhai'n: ond cael dy gwmni Cain,
A dry'n orfoledd, i'm calon glafedd,
I'w chodi'n hoywedd, mo'r gliriedd,
lâch a'r glain; i ganu i ti bereiddiach,
Cysonach mwynach sain.

Baledi ar Faterion Cyfoes

Dangosais hyd yma y modd y defnyddid y faled i ganu ar amryw byd o bynciau, ac nad yw naratif o reidrwydd yn rhan anhepgor o'r ffurf. Fodd bynnag, mae'r faled naratif yn wedd amlwg ar y faled yn y ddeunawfed ganrif, a defnyddir hi gan Joanthan Hughes i adrodd straeon a chynnig beirniadaeth gymdeithasol. Adroddai, er enghraifft, hanesion am ladron a thwyllwyr yn ardal Llangollen, gan fanteisio ar bob cyfle i gyflwyno rhyw wers foesol yn eu sgil. Canodd am gymeriadau a rhyfeddodau lleol, megis Gaynor Hughes o Landderfel a fu'n destun sawl baled am iddi fyw ar lymaid o ddwr yn unig bob dydd. Dilynodd arfer diweddar y beirdd o ddychanu ffasiynau cyfoes, yn fwyaf arbennig yr arfer newydd, yn enwedig ymhlith merched, o yfed te. Dyma a ddywed Jonathan:

Nid oes dim rhyfeddod, fod awydd menywod
I'w dderbyn mewn cymod i'w cell
A'i weled yn serchog fel carwr gorsurog
Yn deithiwr mawr bywiog mor bell,

Planhigyn glan howddgar, gwna wragedd cyfeillgar
Bydd llawer o drydar o'i drin
Twym olew tea melus, wna wledd orfoleddus
Mor flasus i'w gwefus a gwin.²²

Sylwer nad yw mor llawdrwm ar y merched ag ydoedd amryw o feirdd eraill a gwynai fod te yn annog merched i hel clecs a hamdden; yn hytrach, cadwodd Jonathan ei ddychan miniocaf ar gyfer y sawl a fanteisiai ar y difreintiedig.

Gwelsom eisoes i Jonathan gwyno'n hallt am y dreth fedydd, a mater arall a ddaeth dan ei lach ydoedd dull plwyf Llanfair o drin y tlodion lleol. Rhaid oedd i'r anghenus brofi eu hawl i dderbyn cymorth, fel math o brawf moddion, ac ar ben hynny, pe rhoddid iddynt ymgeledd, mynnai'r wardeniaid roi nod ar eu gwisg. Dyma'r *badges* y cyfeirir atynt yn nheitl y faled olaf y byddaf yn ymdrin â hi, sef 'Cerdd a wnaed pan oeddid yn rhoi Badges, neu henw'r pwlyf ar y tylodion, ar Ymadawiad y Brenin'.²³

Yn y faled hon, enfyn y bardd gennad i Ddyffryn Llanfair er mwyn datrys ymryson sydd yno rhwng y penaethiaid a'r tlodion, a defnyddia ffurf y freuddwyd yn fframwaith i'w feirniadaeth a'i ddychan miniog. Wedi iddo syrthio i drwmgwsg, fe'i caiff y bardd ei hun ar ben moel Llanfair yn noeth ac yn llwgu. Gwêl griw o wŷr bonheddig a allasai roi cymorth iddo, ond caiff y bardd ei gynddeiriogi am iddynt ymgynghori a ddylid rhoi iddo wrthban ai peidio:

Gorfod aros yno i oeri,
Tra bu y rhain yn ymgynghori,
Mewn casa llechwedd ceisio llechu,
Rhwngrug ac eithin i besychu.

Caiff wrthban ganddynt yn y pen draw, ond wedi iddo ei dderbyn,
caiff ei ddigio ymhellach o weld arno nod y plwyf:

Ond hwn ni chawn mewn tyn ochenaid
Heb *batch* fel difalch *bitch* y defaid...
Os rhoent ddilledyn i'm cynhesu,
Rhoi gwarth i'w ganlyn rhag ei gelu.

Mae'r dychan hwn yn amlygu gwir anniddigrwydd y bardd ynghylch
y sefyllfa, ac wedi iddo ddeffro o'r freuddwyd fe wêl, er nad yw ef
ei hun mewn angen, fod eraill mewn sefyllfa druenus, ac â ati i
ymosod ar ariangarwch y cyfoethogion:

Chwi wyddoch wrth eich llyfrau brithion,
Pa faint sy'n myn'd yn rhaid tylodion,
Mae gennych gyfri teg bob blwyddyn,
Pa faint o'ch eiddo rhoddwch iddyn,
Nid y'ch yn gwneud mo'ch bwl un amser,
Pa faint sy'n myn'd i borthi balchder,
Pe rhoech chwi hyn ar bapur gwyn,
Fe fyddai'n gryn lawer,
Nid ydyw'r dreth dylodi o lewder,
Mo ddegwm hwnnw, mi wn, na'i hanner.

Yn ogystal ag atgoffa'r cyfoethog o'u dyletswydd i gynnal y tlawd,
cyfarcha'r anghenus hwythau gan eu hannog i ofalu am eu
buddiannau a'u hawliau:

A chwi dylodion gyrraf attoch,
Gwilwch hyn na ddygyn ddiogoch,
Ond cadw eich gair, ym mhlwy' *Llan-fair*,
Heb gellwair tra galloch,
Nid eill eich gwladwyr wrthod monoch,
Fel hen geffylau gwan pan ffaelïoch:
Ni waeth esgyrn y tylodion,
Yn fwyd i'r gwelw bryfed gwaelion,
Na'r bloneg brau, a'n llwch a llau,
Ar dorrau rhai dewrion,
Pan ewch i'r annedd yn union,
Cewch chwi 'run ddygiad a'r bon'ddigion.

Go brin fod Jonathan yn galw ar y tlodion i godi yn erbyn eu meistri yma, ond mae'n eu hatgoffa mai cydradd ydynt oll yng ngolwg Duw, ac yn y byd nesaf felly y cânt eu gwobrwyo. Nid radical mo Jonathan Hughes felly, er y gwelwn egin rhyddfrydiaeth yn ei waith.

Casgliad

Cip yn unig a gawsom ar waith Jonathan Hughes oherwydd y mae swm a sylwedd ei faledi yn rhy eang o lawer i'r ysgrif hon. Ond gobeithio i'r cipolwg hwn gyfleu'r amrywiaeth helaeth o destunau a syniadau a geir ym maledi Jonathan Hughes. O ddarllen y baledi, gwelir holl feiau a rhinweddau canu poblogaidd y cyfnod, ond nid yw'r ffaith fod y safon yn anghyson a'r testunau yn gyfoes yn rheswm dros anwybyddu baledi fel y rhain, fel y gwnaeth Joseph Hughes, ŵyr yr hen fardd, yn 1876. Yn anffodus, ni welodd ef bwysigrwydd baledi ei daid fel rhan o brofiad cymdeithas y ddeunawfed ganrif, cymdeithas ar y gororau rhwng dwy wlad a dau gyfnod, ac mewn llythyr at ei nai, datganodd mai diwerth fyddai adargraffu'r gyfrol *Bardd a Byrddau*:

Y mae enw Jonathan Hughes yn angof gan y rhai ieuengaf ymhlith ein pobl ac o ganlyniad ychydig archwaeth a fyddai gan neb o

ddarlflen neu brynu llyfr a ysgrifenyddwyd wythdeg mlynedd yn ôl[.] Byddai yn rhy hen ffasiwn gan yr ieuengtid yn enwedig y rhai ohonynt sydd feirniaid barddol neu yn disgwyl cael eu hystyried felly.²⁴

I raddau, roedd Joseph Hughes yn llygad ei le. Bardd ei filltir sgwâr ydoedd Jonathan, dim ond y genhedlaeth hŷn a fyddai'n gyfarwydd â'i waith, ac mae'n debyg y byddai beirniaid y dydd wedi condemnio ei gerddi anllad a safon ei Gymraeg ar brydiau. Ond yr oedd chwaeth y cyfnod hwnnw'n bur wahanol i eiddo'r ddeunawfed ganrif a chollwyd enw Jonathan Hughes oherwydd nad oed ei faledi bellach ar flaen bysedd y bobl. Dim ond eithriad athrylithgar fel Twm o'r Nant a lwyddodd i oroesi cyfnod piwritanaidd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Gobeithio, fodd bynnag, i mi ddangos ei bod hi'n werth astudio baledi beirdd gwlad megis Jonathan Hughes, ac mai teg oedd apêl Daniel Williams yn ei ysgrif gynhwysfawr ar Jonathan yn y gyfrol *Beirdd y Gofeb*, pan ddywedodd:

Nid llafur dibris i rywun yn y man fydd casglu ei holl weithiau ynghyd a dangos i'r werin Gymreig y gymyn rodd o feddyliau disglair a dyrchafol a adawodd yn rhodd iddi.²⁵

Dengys baledi Jonathan Hughes inni nad mewn gwagle y bodolai athrylith Twm, fod beirdd y ddeunawfed ganrif yn cyflawni swyddogaeth bwysig yn ogystal â diddanu, a bod llenyddiaeth boblogaidd yn mynegi profiad a dychymyg pobl arbennig mewn cyfnod arbennig, profiad a berthyn i fyd y beirniad llên yn ogystal â'r hanesydd.

NODIADAU

1 Seiliwyd yr ysgrif hon ar bapur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd Flynyddol Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru, 11 Medi 1999. Dymunaf ddiolch i Dr Rhidian Griffiths am ei gyfraniad i'r papur hwnnw gan iddo gyflwyno'r baledi dan sylw ar gân.

2 J. H. Davies, *A Bibliography of Welsh Ballads Printed in the Eighteenth Century* (Llundain, 1911), t. xxviii.

3 Thomas Parry, *Baledi'r Ddeunawfed Ganrif*, adargraffiad (Llandysul, 1986), t. 23.

4 Leslie Shepard, *The Broadside Ballad* (Llundain, 1962), t. 103.

5 *Bardd a Byrddau* (Amwythig, 1778), t. iv.

6 *Almanac Cain Jones*, 1783, t. 20.

7 *Ibid.*, t. v.

8 *Almanac John Prys* (1758).

9 *Bardd a Byrddau*, t. 28.

10 *Gemwaith Awen* (Croesoswallt, 1806), t. 209.

11 Dyfynnir yn G. J. Williams, 'Llythyrau at y Gwyneddigion', *Llên Cymru* 1 (1950), t. 42.

12 J. H. Davies, *op.cit.*, rhif 267, t. 4.

13 *Ibid.*, t. 5.

14 *Ibid.*, rhif 461, t. 6.

15 *Ibid.*, t. 3.

16 *Ibid.*

17 Emyr Wyn Jones, *Ymgiprys am y Goron* (Dinbych, 1992), t. 177.

18 H. Rowlands, *Llyfryddiaeth y Cymry 1776-1800* (Llanidloes, 1869), t. 586.

19 *Almanac Cain Jones* (1794), t. 16.

20 E. G. Millward (gol.), *Blodeugerdd Barddas o Gerddi Rhydd y Ddeunawfed Ganrif* (Llandybïe, 1991), t. 204.

21 *Bardd a Byrddau*, t. 311.

22 *NLW* 573, t. 108; *NLW* 346, t. 448.


23 *Gemwaith Awen*, t. 50.

24 *NLW* 568B, t. 64.

25 Daniel Williams, 'Jonathan Hughes', *Beirdd y Gofeb* (Llangollen, 1951), t. 33.

THE 'HONEST' MILLERS OF WELSH TRADITIONAL SONG¹

Emma Lile



In view of the importance attached to the miller in Wales during the eighteenth and nineteenth centuries, it is hardly surprising that there are numerous historical folk songs and ballads dedicated to him. Closely associated with the local community, the miller produced the flour and meal that was required to make the staple foods such as bread, *bara ceirch* and *uwd* and thus played host to a steady stream of willing customers. Villagers, in turn, often viewed the mill as a popular meeting place, which provided an opportunity for socialising and exchanging gossip. The building and its owner were undoubtedly extremely familiar to all and, as can be seen from surviving rhymes and songs, any business involving the miller soon became common knowledge.

Carefree and contented characters, the millers portrayed in Welsh traditional songs are worthy and well-liked, conscientious at work and valued members of the community. William Williams, the subject of an eighteenth-century ballad,² is described as a '*llengcyn pur gariadus a downus i bob dyn*' ('a loving, talented youth'), whilst the bridegroom of *Neithior y Melinydd*³ ('The Miller's Wedding

Feast') stresses his humility, genuineness and devotion towards his bride. Particularly open concerning their feelings are the millers of both Welsh and English versions of *Tôn y Melinydd*⁴ ('The Miller's Song'), who dare to wear their hearts on their sleeves for public scrutiny. '... *Mae 'nghalon / Yn brudd o dan fy mron*' ('my heart is heavy in my breast'), laments one, whilst the other expresses '...how I loved her / In all sincerity'.

In comparing 'The Miller's Song' (the English translation of *Tôn y Melinydd*) with the original (Welsh) text, it is interesting to note the marked difference between the subjects covered. The contrasting high spirits of the former, who has already secured a wife 'sweeter than the morning, And fairer than the day', and the latter, a yearning singleton desperate for a partner, are striking. Searching for a bride, the narrator of *Tôn y Melinydd* pleads in verse for a release from his bachelorhood. Despite owning a '...[t]ŷ cysurus, *A melin newydd sbon*' ('comfortable home and brand-new mill'), livestock, horse and cart, he remains alone and whereas the lucky fellow of 'The Miller's Song' has found his perfect woman, the lonesome *Tôn y Melinydd* singer still hopes to do so.

Also concentrating on the theme of love and marriage is the ballad *Neithior y Melinydd* ('The Miller's Wedding Feast'), in which villagers are invited to celebrate the wedding of Siencyn the miller and Mallt his sweetheart. Local people are encouraged to lay down their work and take part in the proceedings by dancing and feasting, in order to create a truly communal occasion enjoyed by all. Condemning the falsity and dishonesty of men who marry for money, Siencyn pledges his unconditional love to Mallt and anticipates a life of joyfulness. '*Pwy sydd ddedwyddach, ddedwyddach na ni?*' ('Who is happier, happier than we are?') he enquires confidently, so sure is he of the solidity of the partnership.

From marriage to murder: the more unfortunate consequences of love are conveyed in a ballad printed in 1778 chronicling the killing of William Williams, miller of Llanllechid, Gwynedd. In a harrowing tale, adopting a distinctively sombre tone

far removed from the aforementioned upbeat and light-hearted compositions used for the marriage and courting songs, we learn how humble and dutiful Williams was shot in the back by devil incarnate, Morris Rowland, for desiring the same woman as his attacker. Viewed as innocent and obedient compared with his satanic murderer, Williams was discovered in a hedge by a visitor on her way to the mill (*'Gorph Dyn yn waedlyd daeth arni arswyd'*: 'She was frightened by the bloody body'), whose notification of the crime eventually led to Rowland's hanging.

A unifying characteristic of these diverse songs and ballads is the attention they pay to the social life of the miller rather than the milling process itself. Information on the mechanics of the mill is non-existent, as are the daily duties of its owner. While the narrator of *Melinydd oedd fy Nhad*⁵ ('My Father was a Miller') claims to be the best miller in the land, the actual tasks he performs are undivulged. Similarly, Siencyn of *Neithior y Melinydd* ('The Miller's Wedding Feast') never elaborates on the 'work' he undertakes when not singing the praises of his future wife. Working as a miller is purely incidental in *Merch y Melinydd*⁶ ('The Miller's Daughter'), which prefers to express the sentiments of the woman of the title, determined to remain unaffected by the exploits of her lover. '*Os yw fy annwyl gariad yn caru dwy neu dair ... Rwyffi mor rhydd ag yntau i garu dau neu dri*' ('If my sweetheart loves two or three ... Then I am also free to love two or three') she announces boldly. The intention of all the compositions is evidently to portray the personal qualities of the miller (and occasionally his immediate family) and also to stress his popularity.

This wholesome image of the Welsh miller contrasts sharply with the shady womanisers often depicted in English broadside ballads, which tended to view the milling trade as 'a byword for dishonesty',⁷ riddled with fraudulence, cheating and dubious business deals. Frequently overcharging in order to secure substantial profits and hoarding grain until prices rose, these charlatans commanded little respect from disgruntled customers, fully aware of their

swindling. After the burning of London's Albion Mill in 1791 the suspect methods employed by its owners were revealed, as follows, in *The Baker's Glory*:

Says one, this flour is very course,
Another says, I'm surpris'd tis no worse,
To you, my friend, I'll tell my mind,
They say, they Indian wheat did grind,
Which they did mix with our corn,
This grievance sure can ne'er be borne!⁸

This love of money, which is combined with a lust for women in ballads such as *The Horned Miller*,⁹ is substantiated by an Oxfordshire woman who recalled how, at the turn of the twentieth century, "Ol' Uppy Tup [the Alderbury miller] used to cheat a bit, but my father knew what his weight should be and he used to challenge him, so *he* got his fair share".¹⁰ Welsh millers appear saintly in comparison, emerging with totally unblemished characters and never accused of greed or deception. Either they were canny two-faced scoundrels or simply very well-bre(a)d!

Songs and Ballads consulted:

Cerdd yn rhoi hanes Mwrddwr a fu i un William Williams Melinydd Llanllechid ('Poem describing the murder of one William Williams Llanllechid Miller')

Melinydd oedd fy Nhad ('My Father was a Miller')

Merch y Melinydd ('The Miller's Daughter')

The Miller's Song

Neithior y Melinydd ('The Miller's Wedding Feast')

REFERENCES

1. This article first appeared in *Melin: Cylchgrawn Cymdeithas Melinau Cymru / Journal of the Welsh Mills Society*, 15 (1999). 'I am an honest miller' is the opening line of 'The Miller's Song', the English translation of John Jones' ('Talhaiarn') *Tôn y Melinydd*, a folk song first published in *Gems of Welsh Melody*, Third Series, by John Owen, ('Owain Alaw') (Rhuthin, 1862).
2. Published in Trefriw in 1778, the ballad is entitled *Cerdd yn rhoi hanes Mwrdrwr a fu i un William Williams Melinydd Llanllechid* ('Poem describing the murder of one William Williams Llanllechid Miller').
3. *Neithior y Melinydd* printed in J.H. Davies, *Bibliography of Welsh Ballads printed in the Eighteenth Century* (London, 1911), p. vi.
4. *Tôn y Melinydd* first published in John Owen ('Owain Alaw'), *op. cit.*
5. *Melinydd oedd fy Nhad* printed in *The Welsh Folk Song Society Journal*, vol. 4, part 1 (1948), p. 28. The song was sent to editor and renowned folk song collector J. Lloyd Williams in 1910 by Mr Dan Jenkins, Headmaster of Llan-crwys Council School near Carmarthen. Jenkins had heard it sung by an elderly miller.
6. *Merch y Melinydd* appeared in *Ancient National Airs of Gwent and Morgannwg* (Maria Jane Williams, Llandovery, 1844), the first printed collection of Welsh folk songs.
7. Gerald Porter, *The English Occupational Song* (Umeå, Sweden, 1992), p. 53.
8. Roy Palmer, *The Ballad History of England* (London, 1979), p. 73.
9. For details on *The Horned Miller* see Porter, *op. cit.*, p. 56
10. M. Pickering, *Village Song and Culture* (London, 1982), p. 67.

Neithior y Melinydd

1. Dowch, dowch, y Cym'dogion, na weithiwch ddim hwy,
Telynau mwyn llonwch sy'n llenwi'r holl blwy,
Telynau mwyn llonwch, etc.
Na weithiwch, ond dawnsiwch a llenwch yn llonn,
F'aeth Siencyn o'r Felin a Mallt Tan y fronn,
F'aeth Siencyn o'r felin, etc.

Y Byrdon

Da gan i Fallt, a da gan Fallt fi;
Tra cerddo Ddwr ffrwd,
A'r felin a'i 'Sgwd
Pwy sydd ddedyddach, ddedyddach na ni?

2. Prioded gwyr mawrion am arian ar law,
O heno hyd y foru 'difeirwch a ddaw;
Fy ngorph i a'm calon sy' burion ddi ball,
A'r naill cyn gadarned a lloned a'r llall.

3. Y merched bon'ddigion a 'mddygant yn gall,
Ni waeth, os cair traian, un lleban na'r llall;
Bodlonwn ni'n hunain i'r ddamwain a ddel,
Ein gweithred yw 'mwasgu, cusana' ydyw'r sel.

4. Os gwladaidd yw Siencyn, heb siongerwydd a ffrost,
Heb weniaeth, na ffalsder, na gwycheder mawr gost,
Nid yw fal bon'ddigion, wyr ffeilsion eu ffydd,
O'i wreigan a'i gyfaill yn gofus fe fydd.

5. Tra gallwy'n fy melin ymaflyd a'm gwaith,
A thitheu'n fwyn serchog dy rywiog ber iaith,
Ni dderfydd llawenydd, ond beunydd tros byth,
Bydd Mallt a'i gwr Siencyn yn siongc ac yn syth.
Siencyn Felinydd a'i cant

English translation: The Miller's Wedding Feast

1. Come, come, neighbours, work no more
The sweet and joyful sound of harps is filling the whole parish,
Don't work, but dance and fill with joy,
For Siencyn the miller and Mallt *Tan y Fron*.

Chorus

I like Mallt and she likes me
While the water flows in the stream,
And the mill and its water keeps going
Who is happier, happier than we are?

2. Let the wealthy marry for money in hand
Between tonight and tomorrow regret will come;
My body and heart are constantly pure
And the one is as steady and happy as the other.

3. The girls, gentlemen, behave sensibly,
One lout doesn't matter more than another;
We will resign ourselves to the accident to come,
Our act is to embrace each other, kisses are the seal.

4. If Siencyn is rustic, without agility or boastfulness
Without flattery or falseness, or costly finery,
He is not like gentlemen, who are false of faith,
He will be attentive to his wife and partner.

5. While I can still undertake my work at the mill,
And you remain loving and kind in your delicate and sweet language,
Happiness will not end, but forever and a day
Mallt and her husband Siencyn will be lively and straight.

Sung by Siencyn the Miller

Cerdd yn rhoi hanes Mwrddwr a fu i un William Williams Melinydd Llanllechid ('Poem describing the murder of one William Williams Llanllechid Miller')

The opening two verses:

1. Pob Mab a Merch gwrandawed
Fy 'Stori drom dosturied garw
Rwi'n gweled amryw Bobol
Y leni yn troi yn elynol ysol a fu
Fel bu; ryw ymrafael ddadl ddu
Rhwnge dau o ddynion o Sir Gaernarfon
Oer fraw echryllon i'r galon greulon fri
Tu fewn i Blwy Llanllechid
Mawr 'ferdid yno a fu
'Roedd un; yn Felinydd lonydd lun
Un dwysdeg disdaw hwylus hylaw
Heb wneyd dim cyffraw na hwyrfraw iddo'i hun
Yn llengcyn pur gariadus a downus i bob dyn

2. A'r llall yn byw yn rhy ddiofal
Heb ofni Duw na Diafol anfitiol Satan
Ond cario Gwn i ffowlio
A'i Dad a'i Fam i'w foddio yn fawr a fyddan
Ddau oedd; trwy dosda blina bloedd
Yn caru y ddynes fel hyn mae'r hanes
Pob un mewn pwrpas yn gynnes iddi ar goedd
Y Melinydd hon a hoffa gwiw rwyddda iddo'r oedd
A'r llall; heb gellwair nid oedd yn gall
Pan wele ei drechu na chae moi charu
Rhag iddo fathu'r oedd Diawl yn gwenu gwall
I ladd y dyn diniwed trwy fwriad drwg y fall

English translation:

1. Every man and woman listen
And take pity on my sad but true story
I see many people
This year becoming sworn enemies
As happened in a dark argument
Between two men from Caernarfonshire
Awful terror struck this kind heart
In the parish of Llanllechid.
There was great merriment there.
One man there was a quiet miller,
A handsome, cheerful, handy fellow
Who made no fuss or commotion,
A loving, talented youth.

2. The other man lived a carefree life,
Fearing neither God nor the Devil Satan,
He carried a gun for shooting birds,
And his mother and father did everything to please him.
The two men unfortunately
Loved the same woman - here is the story,
Each one made a point of being very attentive to her in public.
She had fallen for the miller
And the other; honestly, had lost all sense
When he saw he had been beaten and that he wouldn't be
able to love her,
He decided to avoid failure by killing the innocent man by
the devil's means.

TON Y MELINYDD.

THE MILLER'S SONG.

Welsh and English words by

TALHAIRN.

Allegretto.

Symphonies, Accompaniments, and Chorus
arranged by OWAIN ALAW.

PIANO.

The musical score consists of three systems. Each system has a piano accompaniment on the left (treble and bass clef) and a vocal line on the right (treble clef). The lyrics are written below the vocal line.

System 1:
 Vocal: *Mae gen - yf dy sy - sur - na, A mel - in new - ydd*
 English: *I am on how sweet mill - er, sing a new - pie*

System 2:
 Vocal: *spes. A thair o war - thag blith - ion, Yn por - i ar y ffon.*
 English: *lay, Is ho - nour of my sweet - heart, Whose name is Ma - ry Bray.*

System 3:
 (No lyrics present in this system)

II.

Mae gennyf drol a cheffyl,
 A merlyn bychan twt,
 A deg o ddefaid tewion,
 A mochyn yn y cwt.

III.

Mae gennyf gwppwr cornel
 Yn llawn o lestri tē,
 A dresser yn y gegin
 A phob peth yn ei le.

IV.

Er hyn i gyd mae 'nghalon
 Yn brudd o dan fy mron,
 O sisiau meinir hawddgar
 I wneyd fy myd yn llon.

V.

A ddoi, di Mari anwyl,
 I'r Eglwys gyd â mi?
 Fy nghariad, a fy nghoron,
 A'm calon ydwyt ti.

VI.

Os doi di fy anwyl
 I'm gwneyd yn ddedwydd wr,
 Cei gariad y melinydd
 Tra try yr olwyn ddwr.

II.

She's sweeter than the morning,
 And fairer than the day
 When dewdrops deck the blossoms
 In the merry month of May.

III.

I met her in the evening
 Beneath the hawthorn tree,
 I told her how I lov'd her
 In all sincerity.

IV.

I said, I love you dearly,
 As dearly as my life:
 She sigh'd, she blushed, and whispered,
 Then I will be your wife.

V.

Said I, my darling Mary,
 My house and heart are thine;
 The sheep, the pigs, the poultry,
 And every thing that's mine.

VI.

We'll set the bells a ringing,
 Our village shall be gay,
 To celebrate my wedding
 With gentle Mary Bray.

THE MILLER'S SONG.

p CHORUS

ARR. *p* Fal la la la, la la la la, Fal la la la, la la la la,

ALTO. *p* Fal la la la, la la la la, Fal la la la, la la la la,

TENOR. *p* Fal la la la, la la la la, Fal la la la, la la la la,

BASS. *p* Fal la la la, la la la la, Fal la la la, la la la la,

PIANO *mf*

cres. *dim.*
Fal la la, . . . la la la la. . .

cres. *dim.*
Fal la la, . . . la la la la. . .

cres. *dim.*
Fal la la, . . . la la la la. . .

cres. *dim.*
Fal la la, . . . la la la la. . .

f *p* *f*

John Owain, (Owain Alaw), *Gems of Welsh Melody* (1860).

MELINYDD OEDD FY NHAD


(My father was a miller)

Doh F. <| d :- : r | m :- : m | m :- : m | m :- : - l r :- : d | s :- : s | s :- : s | l :- : - s :- : >



1. Me - li-nydd oedd fy nhaid, Me - li-nydd oedd fy nhad, Me -

<| d' :- : d' | m :- : m | m :- : - l r :- : d | m :- : r | r :- : r | r :- : - d :- : r >



- li - nydd y - dwyf fin - nau, Y go - rau yn y wlad; Me -

<| m :- : m | m :- : m | m :- : r | d :- : d | s :- : s | s :- : s | l :- : - s :- : >



- li-nyddfydd y ba - ban Pan dde - lo fo i'r byd, Ond

<| d' :- : d' | m :- : m | m :- : m | r :- : r : d . d | m :- : - d :- : d | d :- : - d :- : r >



y - dywyn beth rhy - fedd bod ni'n felin-ydd - ion i gyd! La - di

<| m :- : - m :- : - | m :- : - l r :- : d | s :- : - s :- : - | l :- : - s :- : >



hi hai ho, La - di - hi hai ho,

<| d' :- : - m :- : m | m :- : - l r :- : d | m :- : - d :- : - | d :- : - ||



Iap fal di ral, la - di hi hai ho.

(My grandfather was a miller, my father was a miller, I also am a miller—the best in the country. The baby will be a miller when he comes into the world. Is it not curious that we should all be millers?)

MERCH Y MELINYDD,

The Miller's Daughter.

Slow.

VOICE.

Os yw fy an-wyl ga-riad yn ca-ru dwy neu dair, Ac

HARP
OR
PIANO
FORTE.

yn eu cadw'n foddlon bob marchnad a phob ffair, O peidied yntau fedd-wl fod

hynny'n boen i fi, 'Rwy fi mor rhydd ag yn-tau i ga-ru dau neu dri.

'Phrioda'i ddim eleni, 'chwedleuāi ddim â neb,
 Twyllodrus iawn yw meibion a fedrant weyd yn deg,
 Pwy decca' bo nhwy'n gwedyd, gwaetha' gyd y daw,
 Llawnnydd pob merch ieuange yw ei dewis ar ei llaw.

RHAGOR AM FARDD ALAW A'I ALAWON MEWN CASGLIAD UNIGRYW

Huw Williams

Cerddor Cymreig prysur a chynhyrchol y denwyd llawer dros y blynyddoedd i ymddiddori yn hanes ei fywyd a'i waith yw John Parry ('Bardd Alaw'; 1776-1851), brodor o Ddinbych, a thaid i John Orlando Parry (1810-79), y dywedir iddo ddysgu canu'r delyn gyda'r Ffrancwr enwog N. C. Bochsa (1789-1856) yn yr Academi Frenhinol yn Llundain.

Mae llawer o ddefnyddiau ynglŷn â gwaith y mab – fel cerddor ac fel arlunydd – wedi eu diogelu yn y Llyfrgell Genedlaethol, a hwyrach rhyw ddydd y cymhellir myfyriwr ymchwil o un o'r colegau i ymddiddori yng ngwaith y gŵr hwnnw, a ddisgrifiwyd un tro fel *variety entertainer* mwyaf amryddawn ei oes.

Am John Parry, y tad, nid oes brinder gwybodaeth am ei waith fel trefnydd, awdur, a chyhoeddwr alawon. Cyhoeddwyd hwnt at yma lawer ac ysgrifau buddiol yn seiliedig ar wahanol agweddau i'w weithgarwch, ac yn 1951 dyfarnodd Prifysgol Lerpwl radd M.A. i Winston Gwynne John (y cerddor a ddenwyd gan y Dr B. Haydn Williams i Sir y Fflint yn dilyn Prifwyl y Rhyl yn 1953), am ymchwilio i'w hanes.

Diogelir yn Llyfrgell Caerdydd un llawysgrif ddiddorol iawn o'r eiddo, ac y mae perygl anghofio yn llwyr amdani, sef llyfryn – bychan yn ôl safonau John Parry, yn mesur tua 5¼" wrth 9¼" – yn dwyn y teitl "A choice selection of Welsh airs as played in Wales, arranged for the pianoforte, that English amateurs may appreciate their beauty". Rhif y llawysgrif, yn cynnwys 99 tt. o gerddoriaeth ac 81 o alawon, yw 2.1363, wedi ei chyflwyno gan John Parry i'r Arglwyddes Hall

(‘Gwenynen Gwent’) o gyfeiriad yn Bloomsbury, Llundain, a’i ddyddio ganddo 25 Mehefin 1849.

Hyd y gallaf weld, nid oes yr un o alawon y llawysgrif yn ymddangos am y tro cyntaf; cynhwyswyd y cyfan (neu fersiynau ohonynt (ychydig ynghynt gan John Parry yn un o’i ddwy gyfrol o *Welsh Harper* (1839 a 1848). Tynnwyd fy sylw at y darddell hon rhyw ddwy flynedd yn ôl gan y cyfaill cymwynasgar Brynmor Jones o Lyfrgell Caerdydd, ac nid oedd (ar y pryd beth bynnag), unrhyw wybodaeth yn y Llyfrgell o ble na thrwy gyfrwng pwy – y derbyniwyd hi yno, heblaw mai yn 1935 y digwyddodd hynny.

A chaniatáu fod y llawysgrif yn un gwbl ddilys, fe gyflwynwyd yr alawon gan John Parry i Wenynen Gwent rhyw ddwy flynedd cyn ei farw, ac yntau eisoes wedi dod i fri mawr fel awdur amryw o gasgliadau a ddaeth yn y man yn eitemau hynod o gasgladwy. Tybed ai detholiad sydd wedi ei ddiogelu yng Nghaerdydd (yn llawysgrifen John Parry fe dybir) o alawon wedi eu cyflwyno i Arglwyddes Llanofer ar gyfer amgylchiad neu ddefnydd arbennig? Neu hwyrach gasgliad personol wedi ei gyflwyno i’r Wenynen ar bwys edmygedd John Parry ohoni fel un yn cyd-weithio i gasglu alawon gwerin y genedl? Diau fod rhywun yn darllen y rhifyn hwn o’n cylchgrawn sydd mewn sefyllfa i ateb y cwestiynau hyn, a’r un pryd i oleuo’r awdurdodau yng Nghaerdydd ynglŷn â chefnidir y llawysgrif.

Beth ynteu am gynnwys y llawysgrif? Mae ynddi liaws o alawon adnabyddus iawn, yn eu plith ‘Merch Megan’, ‘Serch Hudol’, ‘Nos Galan’, ‘Codiad yr Ehedydd’, ‘Ar hyd y Nos’, ‘Glan meddwdod Mwyn’, a ‘Bugeilio’r Gwenith Gwyn’, i enwi dim ond ychydig. Y rhai mwyaf trawiadol, fodd bynnag, yw’r rhai hynny lle y dodwyd nodiadau cefndir ar eu cyfer, a hynny, mae’n debyg, yn seiliedig ar dystiolaeth Bardd Alaw ei hun. Wele enghreifftiau o ryw hanner dwsin yn unig:

1. *The Lament of Prydain* (alaw rhif 36, tt. 42-5)

Alaw yw hon y nodir ar ei chyfer ei bod yn cael ei chanu gan blant yr Ysgol Gymreig ar gyfer plant tlodion (yn Llundain mae'n debyg) ar Ddydd Gŵyl Dewi, 1820, gyda'r geiriau (yn dal cysylltiad â marwolaeth y Dywysoges Charlotte o Gymru) a'r gerddoriaeth gan John Parry.

2. *St. David's Day* (rhif 44, tt. 56-7)

Dywedir bod yr alaw hon wedi ei newid a'i chyfansoddi'n rhannol gan John Parry. Nodir hefyd ei bod yn wastad yn cael ei chanu yng Ngŵyl y Cymry yn Llundain ar Ddydd Gŵyl Dewi.

3. *Hoffder y Cymmrodorion* (rhif 20, t. 23)

Yr hen alaw 'Cader Idris' yw hon, gyda "J. Parry 1804" uwch ei phen. Ychwanegir hefyd fod geiriau'r hen gân boblogaidd 'Jenny Jones' wedi cael eu hysgrifennu ar ei chyfer gan C. Mathews (sef y difyrwr enwog Charles J. Mathews), a bod y gân honno wedi ei chyhoeddi yn 1836. Am ragor o'i hanes gweler *Canu'r Bobl*, tt. 57-8. (Gyda llaw, ceir hefyd alaw yn dwyn y teitl *Hoffder y Gwyneddigion* yn y casgliad).

4. *Llanover* (rhif 41, t. 53)

Cyfansoddwyd gan John Parry i Wenynen Gwent, Medi 1837.

5. *Y Sach Wlan (The Woolpack)* (rhif 37, tt. 46-7)

Cyfansoddwyd gan John Parry, 27 Rhagfyr 1829, ar gyfer Cymdeithas y Gwyneddigion, a nodir ar ei chyfer mai ar ôl yr 'Woolpack Tavern' yn Cornhill, sef man cyfarfod y Gymdeithas, y galwyd yr alaw wrth ei henw anarferol.

6. *Castell Rhuthin (Ruthin Castle)* (rhif 35, tt. 40-1)

Alaw delyn wreiddiol gan John Parry yw hon, wedi ei chyfansoddi 18 Rhagfyr 1826, a'i gwobrwyo yn Rhuthun 1 Mawrth

1827 (yng nghyfarfod pen blwydd Cymdeithas Lenyddol Rhuthun mae'n debyg).

Nid oes fawr ddim yn sylwadau Bardd Alaw nad yw eisoes yn wybyddus i'r sawl sy'n ymddiddori yn hanes rhai o'r hen alawon. Serch hynny, mae'n siwr y cytunir bod y llawysgrif yn ddogfen sy'n haeddu sylw, yn arbennig gan nad oes gyfeiriad ati yn y gwahanol ysgrifau y digwydd i mi fod yn gyfarwydd â hwy sy'n trafod Bardd Alaw a'i lafur arloesol ym maes ein halawon brodorol.

Ôl-nodyn

Ar ôl cwblhau'r ysgrif uchod, sylwais fod casgliad arall gwahanol o alawon Cymreig mewn llawysgrif wedi cael ei gyflwyno i Arglwyddes Llanofar gan John Parry ('Bardd Alaw') yn 1849, a bod y llawysgrif honno hefyd ar gael a chadw yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd (llawysgrif rhif 1.694 yn y catalog a ddarparwyd gan Graham C. G. Thomas a Daniel Huws yn 1994).

Ni welais mo'r llawysgrif hon, ond gan ei bod yn cael ei disgrifio fel casgliad o ddeg ar hugain o alawon Cymreig, a'i dyddio 1809, tybiaf fod y cynnwys yn cyfateb i gynnwys cyfrol gyhoeddedig Bardd Alaw, *A Selection of Welsh Melodies...* (Llundain, 1809), a enillodd i'r awdur fathodyn Cymdeithas y Gwyneddigion.

Tybed a ddaeth yn arferiad gan Fardd Alaw i gyflwyno i Arglwyddes Llanofar rai o'i weithiau eraill hefyd mewn llawysgrif pan oedd yn tynnu at derfyn ei oes?

MODDAU A THONYDDIAETH CERDDORIAETH IWERDDON

William Mahon

Sylwadau Cyflwyno

Prin y gall neb amau bod cerddoriaeth draddodiadol Iwerddon ar hyn o bryd yn mwynhau cyfnod di-ail o boblogrwydd rhyngwladol. Fodd bynnag, nid canlyniad *fás aon oíche* ('twf unnos') yw hyn. Hyd yn oed yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif yr oedd rhyw lefel o ddiddordeb yng ngherddoriaeth Iwerddon (weithiau, hwyrach, fel rhyw fath o *exotica* trefedigaethol), ffaith y tystir iddi'n dda gan gyhoeddiadau fel *Playford's Dancing Master* (1651), *Aria di Camera* (1728), a hyd yn oed *Moore's Melodies* (1808). Ar yr un pryd, nid yw traddodiad cerddorol Iwerddon erioed wedi gwrthsefyll arbrofi â ffurfiau newydd a rhai wedi eu mewnforio. Traddodiad cymysgryw ydyw'n wirioneddol—ac yn anffodus. Ers sefydlu cymunedau mawr o fewnfudwyr o Iwerddon ym Mhrydain, America ac Awstralia yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cafwyd cynulleidfa a marchnad gyson i'r gerddoriaeth, boed wrth ei pherfformio neu'n argraffedig, ymhlith y bobl sy'n etifeddion y traddodiad mewn gwirionedd. Yn y theatr, ar y llwyfan *vaudeville*, ac yn recordiau cynnar America a Phrydain yn yr ugeiniau a'r tri degau, cafodd ei chynnal fel *genre* poblogaidd. Yn wir, yr oedd i'r cwmnïau a gynhyrchai recordiau masnachol o gerddoriaeth Iwerddon ran sylweddol yn y gwaith o ddilysu'r gerddoriaeth yn Iwerddon mewn cyfnod pan oedd 'bandiau dawns' newydd y tri degau a'r pedwar degau'n bygwth mygu apêl boblogaidd y gerddoriaeth hân. Mae ei phoblogrwydd diweddarach yn deillio i raddau helaeth o ychydig ffenómena cysylltiedig: sefydlu'r *Oireachtas* (ar batrwm yr eisteddfod), dyfodiad radio, 'diwygiad canu gwerin' Eingl-

Americanaidd y pum degau, diwylliant ieuenctid rhyngwladol y chwe degau, datblygiadau economaidd yn Iwerddon a oedd yn meithrin lefel newydd o hunanhyder a balchder o fod yn Wyddelig, a chreu sefydliadau a oedd yn meithrin cynnal y traddodiad (*Comhaltas Ceoltóirí Éireann* yn 1951) a chyhoeddusrwydd iddo yn y cyfryngau (*Gael Linn* ym 1956). Yn ystod y deugain mlynedd diwethaf ymddangosodd sefydliadau newydd - y sesiwn dafarn a'r 'grŵp traddodiadol' - sydd erbyn hyn yn ddiamau'n cael eu derbyn fel elfennau yn y traddodiad. Yn yr holl agweddau hyn, gwelwn fod cerddoriaeth draddodiadol Iwerddon yn bwysig wrth ddiffinio diwylliant cyfoes Iwerddon. Gall fod yn werth sylwi nad yw'r traddodiad cerddorol yn Iwerddon yn edrych yn ôl dros ei ysgwydd hanner cymaint ag yw rhai haenau yn yr adfywiad gwerin Seisnig, sydd fel petai'n rhamanteiddio rhyw ddiwylliant pentrefol o'r Oesoedd Canol neu gyfnod Elizabeth.

Yn sicr, mae mwy o bobl drwy'r byd i gyd yn ymwneud â cherddoriaeth Iwerddon nag erioed o'r blaen. Un datblygiad anffodus, fodd bynnag, yw mai'r 'grŵp traddodiadol' (yn hytrach na'r unawdydd offerynnol) a recordiau masnachol gydag ôl llawer o 'beirianeg' arnynt yw'r patrwm i nifer o bobl o'r hyn a dybir yw cerddoriaeth draddodiadol Iwerddon. Dadleuir bod y grwpiau hyn a'u recordiau yn *cyflwyno* 'r gerddoriaeth i'r rheiny na fyddent yn ei chlywed nac yn sylwi arni fel arall yn y byd o'u cwrmpas. Hwyrach. Mae perygl, fodd bynnag, y bydd y ffurfiau arbrolfol hyn sydd wedi eu harmoneiddio yn gosod safonau sy'n rhagori ar 'sain unig' y genhedlaeth hyn o offerynwyr. Yn y papur hwn, fodd bynnag, hoffwn ddelio â nodwedd dechnegol yng ngherddoriaeth draddodiadol Iwerddon sy'n aml yn mynd ar goll yn y recordiau masnachol coegwych. Y ffordd orau i werthfawrogi'r nodwedd hon, sef moddrolrwydd traddodiadol, yw yng nghyd-destun perfformiad gan unawdydd.

Moddau Traddodiadol Cerddoriaeth Iwerddon

Breandán Breathnach (1912-85) yn anad neb arall a osododd gerddoleg Cerddoriaeth Draddodiadol Iwerddon ar sail gadarn. Yr

oedd yn gerddor (pibau), yn gasglwr (*Ceol Rince na hÉireann*, cyfrolau 1-5 [1963-1999]), yn gyhoeddwr (*Ceol* [1963-85]) ac yn awdur nifer o lyfrau ac erthyglau'n ymwneud ag ymron bob agwedd ar y traddodiad cerdd. Ond hwyrach mai'r pwysicaf o'i gampweithiau oedd dyfeisio system fynegai (yn seiliedig ar feini prawf modd a rhythm) o alawon traddodiadol Iwerddon a chrynhoi ar gardiau gronfa ddata a gynhwysai dros saith mil o eitemau. (Cedwir y mynegai erbyn hyn yn Archif Cerddoriaeth Draddodiadol Iwerddon, Merrion Square, Dilyn.) O ran dosbarthiad alawon Iwerddon yn ôl eu modd, sylwodd ar gyfatebiaeth 'ryfeddol o agos' ag amllder rhai moddau yng ngherddoriaeth Lloegr (Breathnach 1971:11). Alawon yn y modd Ioniaidd (modd-do) yw dros drigain y cant o alawon Iwerddon; mae pymtheg y cant yn y modd Micsolydiaidd (modd-so); ychydig llai na deg y cant yn y modd Doriaidd (modd-re); a llai na deg y cant yn y modd Aeoliaidd (modd-la). Bydd gennyf ragor i'w ddweud am gerddoriaeth Cymru yn ddiweddarach, ond o ran diddordeb gallwn gymharu'r canrannau uchod â'r rheiny sydd wedi eu llunio gan Peter Crossley-Holland yn ei astudiaeth bwysig 'The Tonal Limits of Welsh Folk Song':

Iwerddon (Breathnach 1971) **Cymru** (Crossley-Holland 1968)

Ioniaidd	60+%	52.50%
Micsolydiaidd	15%	2%
Doriaidd	10+%	14%
Aeoliaidd	10%	30.75%
Phrygiaidd (mi)	0%	75%

Rhaid bod yn ofalus, a dweud y lleiaf, wrth osod ffigurau fel hyn ar bapur. Yn gyntaf, nid yw bob amser yn bosibl dosbarthu alaw yn ôl modd penodol. Er enghraifft, yn yr hyn a elwir yn 'raddfeydd bylchog' (y rheiny sydd â llai na'r nifer llawn o saith nodyn neu 'radd'), gall y nodau neu 'raddau'r raddfa' sy'n sefydlu'r cyfyngau sy'n cynnwys y meini prawf ar gyfer dosbarthiad modd, fod yn

absennol. Mewn achosion eraill, gellir gweld un alaw yn camu allan o un modd ac i mewn i fodd arall. Yn ail, cafodd astudiaeth Crossley-Holland ei seilio ar ganeuon traddodiadol, nid cerddoriaeth ddawns, ac mae'n bosibl (er nad yw hynny eto wedi ei ddangos) fod y traddodiad caneuon yn fwy ceidwadol ac yn llai agored i 'ddylanwad allanol'.

Mewn cerddoriaeth draddodiadol, at hynny, mae moddau'n categorïau disgrifiadol. Nid oes tystiolaeth i brofi unrhyw ddamcaniaeth foddaiidd benodedig a oedd yn rheoleiddio cyfansoddi a pherfformio traddodiadol, fel yr oedd ar gyfer cerddoriaeth eglwysig yr Oesoedd Canol. Gall y patrymau strwythurol a alwn yn 'foddau' gael eu hadnabod yn y gerddoriaeth, ac mae yna estheteg 'draddodiadol' i'r graddau fod cerddorion yn eu 'clywed' neu'n eu 'teimlo'. Ond ni fydd offerynwyr yn eu dosbarthu felly (h.y. fel 'moddau'), ac nid *damcaniaeth* sy'n sefydlu'r paramedrau ar gyfer eu defnyddio. (Yn wir, mae yna gryn le i arbrofi). Mewn cerddoriaeth draddodiadol, nid yw'r termau dosbarthu hynny a ddefnyddir yn fwy nac yn llai caeth na'r rheiny sydd eisoes wedi eu derbyn gan y gymuned o gerddorion a chantorion. Os bydd cerddor yn disgrifio alaw yn y modd Doriaidd fel alaw 'yn E', er enghraifft, bydd ei gyd gerddorion yn deall bod iddi 'sŵn unig', 'trist' neu 'leddf', yn wahanol i 'sŵn sioncach' neu 'hapusach' alaw yn y modd Ioniaidd. Defnyddir syniad bras o 'gywair' (gyda 'newidiadau' llonnod neu feddalnodd ar rai nodau).

Newid Modd

Gall nodyn sydd wedi ei 'newid' newid modd yr alaw ar draws uned helaeth: chwe i wyth bar, er enghraifft (sydd fwy neu lai'n cyfateb i ran neu 'dro'). Mae'r math hwn o newid yn ddigon amlwg, a gwelir ei fod fel rheol yn golygu symud yng nghanol y tonydd. I ddangos y math hwn, gallwn gymryd dau osodiad o'r un ril. Mae'r un cyntaf (1) yn osodiad syml Ioniaidd gan O'Neill o dan yr enw *Downing's Reel*. Mae'r ail (2), *Mamma's Pet*, yn fersiwn fflwiwt

safonol o'r alaw o Sligo sy'n defnyddio cyfosod modd.

(1) Downing's Reel



Downing's Reel [= *Mamma's Pet*] (O'Neill 1907: rhif 591)

K:G (Ionian)

M:4/4

3(DEF| G2 FG EGDF | G2 BG dGBG | G2 FG EFDc | Beed BcAB |
G2 FG EFDF | GABc DBAB | G2 FG EFDA | Beed BA ||
BAGA Bc d2 | Beed Bcd2 | BAGA Bcd2 | Beed B2 A2 |
BAGA Bc d2 | Beed Bcd2 | G2 GB A2 Ac | Beed B2 A2 ||

Sylwch fod y tro yn cadw'r moddolrwydd (pwysleisir y triad GBD ym marrau 9,11,12).

(2) Mamma's Pet



Mamma's Pet

K:G

M:4/4

BA | G2FG EGDE | G2BG DGBG | G2FG EGDG | Beed B2AF |
GEFD EDBA | GB~B2 GBFz | GEED EFGA | Beed B2 :||
eAA2 edBd | eAAB G2 Bd | eAA2 edBd | edge dGBd |
e2dg edBA | G2GA Bcdz | edef g2ef | g2af gedB :||

Yn y fersiwn hwn o Sligo, caiff moddolrwydd Ioniaidd y rhan gyntaf (yn seiliedig ar G) ei ddisodli gan fodd Doriaidd (yn seiliedig ar A). Gan fod yr un nodau yn y ddau fodd hwn (ynghyd ag alawon Micsolydiaidd ar G ac alawon Aeoliaidd ar E), creir yr effaith gan ddyfais felodaidd, h.y. symud canol y tonydd drwy bwysleisio nodau penodol A yn disodli G yn yr achos hwn) a phatrymau triadaidd (ABD yn disodli GBD). Mae alawon o'r math hwn, a elwir weithiau'n felodiau 'tonydd dwbl', yn defnyddio'r symud hwn yng nghanol y tonydd i greu cyfodod moddau sy'n pwysleisio. Fodd bynnag, mae yna fathau mwy cynnil o amrywio strwythurol.

Amwysedd modd yn strwythur alawon

Dadl sylfaenol yn y papur hwn yw fod rhai nodweddion yn strwythur a thonyddiaeth alaw yn creu bylchau o 'amwysedd modd' y bydd cerddor traddodiadol Gwyddelig yn eu defnyddio er mwyn pwyslais neu amrywiaeth. Mewn perfformiad, caiff y ffordd o ddefnyddio'r bylchau hyn ei gwireddu mewn ffurfiau o'r hyn a ddisgrifiwn yn gyffredinol fel goslef neu drawsgyweiriad. Er bod y termau hyn yn ddefnyddiol er mwyn disgrifio, maent yn methu cyfleu'r graddau y mae'r dyfeisiadau dan sylw'n ffurfiau lluosog sy'n tarddu yng nghydestun perfformio; eu bod yn nodweddion arddull sy'n gynhenid i estheteg cerddorion traddodiadol. Yn wir, mae amrywiadau ar alawon a geir mewn gwahanol drawsgriffiadau a chyhoeddiadau fel rheol yn cynrychioli crisialu alaw ac arddull chwarae am un eiliad mewn perfformiad (a'r rheini, gellir ychwanegu, fel rheol yn gofnod o'r alaw neu'r gân yn cael ei chwarae 'unwaith drwyddi').

Os caiff modd ei adnabod yn ôl patrwm y cyfyngau sy'n cael eu creu gan ei saith rhif neu 'radd' (gan ddechrau gyda'r nodyn cartref neu'r tonydd) a thôn yr wythfed, gall ychydig *amwysedd modd* ddigwydd os bydd un neu ragor o'r graddau hyn ar goll. (Mae'r ymadrodd 'graddfa fylchog' am y tonau pentatonig a hecsatonig hyn yn anffodus am ei fod yn awgrymu bod yr alaw rywsut yn ddiffygiol, yn amherffaith, yn hen neu'n 'gyntefig'). Mae alawon

fel hyn - ac alawon gyda *rhannau* o'r math hwn - yn ddigon cyffredin yng ngherddoriaeth Iwerddon. Mae'r math o amwysedd modd a ddisgrifir yma'n ymwneud ag alawon sy'n seiliedig ar y tonydd D, E, neu A.

Yng ngherddoriaeth draddodiadol Iwerddon, (1) bydd alaw sy'n seiliedig ar donydd D naill ai'n Ioniaidd neu'n Ficsolydiaidd yn ôl a yw'r *seithfed* gradd yn C²(fel yn y cyntaf) neu C³ (fel yn yr ail). Os bydd y seithfed gradd ar goll, wrth gwrs, mae'r modd yn amwys (hyd yn oed os yw ychydig yn 'fwyaf' o ran lliw). (2) Bydd alaw sy'n seiliedig ar y tonydd E naill ai'n Ddoriaidd neu'n Aeoliaidd yn ôl a yw'r *chweched* gradd (C eto) yn llonnod (fel yn y cyntaf) neu'n naturiol (fel yn yr ail). Hyd yn oed yn achos amwysedd modd am fod y chweched ar goll, bydd yr alaw yn 'lleddf' o ran lliw. (3) Yn achos alawon gyda thonydd A, mae'r amwysedd yn fwy eithafol byth. Yma, y *trydydd* (C eto) yw'r radd hanfodol. Os yw'r C yn naturiol, bydd yr alaw'n un Ddoriaidd a'i lliw yn nodweddiadol 'lleddf' oherwydd y trydydd llonnod. Os yw'r C yn llonnod, fodd bynnag, bydd yr alaw yn un Ficsolydiaidd, gyda lliw 'mwyaf' i'r gwrthwyneb llwyr i'r Doriaidd. Nodwedd ryfeddol yn y cyweiriadau ar gyfer chwarae cerddoriaeth Iwerddon yw mai'r nodyn C (boed fel seithfed, chweched neu drydedd radd y raddfa) sy'n chwarae'r rhan hanfodol. Gall y cysylltiadau uchod gael eu gosod allan yn y diagram sy'n dilyn.

MODD	CYWAIR	GRADDFA
(1)		
Ioniaidd	² (D)	d e f g a b (c ²)
Micsolydiaidd	³ (G)	d e f g a b (c)
(2)		
Doriaidd	² (D)	e f g a b (c ²) d
Aeoliaidd	³ (G)	e f g a b (c) d
(3)		
Micsolydiaidd	² (D)	a b (c ²) d e f g
Doriaidd	³ (G)	a b (c) d e f g

Mae nifer o alawon yn defnyddio'r amwysedd hwn. Yn rhan gyntaf alaw gall fod amwysedd modd oherwydd bod y nodyn C ar goll; yn yr ail ran (y 'tro'), gall y nodyn C ymddangos yn sydyn (boed fel nodyn naturiol neu lonnod) a sefydlu gwedd foddaiidd gref i'r gwrthwyneb i'r un flaenorol amhenodol ac ansicr. Fel enghraifft o'r math hwn o amwysedd modd, gallwn gymryd fersiwn O'Neill (yma wedi ei thrawsgyweirio o D i G) o hen jig o dan y teitl *The Besom in Bloom* (O'Neil 1907:28).

(3) The Besom in Bloom



The Besom in Bloom

M:6/8

K:G

A/2G/2 | FED F2>D | GED D2 G | FED F2 G | AGF GAG |
FED F2 G | AGA f2 e | ded cAF | AGF G2 :|

A | BcB BAG | ABA A2 G | FED F2 D | GED D2 A |
BcB BAG | ABA ABc | ded cAF | AGF G2 :|

Ym marrau 1,2,3,5 gwelwn batrwm disgynedig sy'n ailadrodd o F⁶) (neu G)ED sydd fel petai'n sefydlu D fel y tonydd. Mae'r chwe bar cyntaf yn rhai pentatonig, h.y. trydedd a'r bedwaredd

gradd B ac C ar goll. Tan y fan hon, ac oherwydd yr amwysedd modd sy'n deillio o absenoldeb C, gellid cymryd bod yr alaw yn y cywair D (naill ai'n Ioniaidd neu'n Ficsolydiaidd). Ym marrau 7 ac 8, fodd bynnag, caiff y pedwerydd (C³) ei gyflwyno ac mae'r rhan gyntaf yn diweddu ar G. Yn ogystal ag egluro moddolrwydd (Ioniaidd) yr alaw, mae'r symudiad hwn hefyd yn sefydlu ei bod yn y cywair G. Mae'r symudiad yn atyniadol iawn i'r cerddor Gwyddelig. Mae golygfa neu dirwedd newydd yn yr alaw fel petai 'ymagor'.

Am enghraifft arall, gallwn gymryd fersiwn John Potts i'r pibau o *The Gander in the Pratie Hole* (Breathnach 1967: 12 [rhif 31]).

(4) The Gander in the Pratie Hole



The Gander in the Pratie Hole (CRE I: no. 30, John Potts [1871-1956], pibydd).

K:G

M:6/8

AG | FAD FAD | GFG EFG | FAD FAD | GED D3 |

FAD FAD | GFG EFA | fed e^cA | GED d2 :|

FG| Add ded | cAB cAG | Add ded | cAB c2 c |

Add ded | cAB cde | fed e^cA | GED D2 :||

O gael y nodydd tonydd D a'r arwydd cywair o un⁺(h.y. cywair G), gellid disgwyl i'r alaw hon fod yn un Ficsolydiaidd. Yn y rhan gyntaf, fodd bynnag (yr wyth bar cyntaf), mae'r chweched gradd (B) ar goll yn llwyr ac ni chlywir y seithfed gradd tan far 7. Pan

gaiff ei chyflwyno yn yr ail far o'r diwedd yn y rhan gyntaf, caiff ei chodi (C⁺). Hynny yw, caiff amwysedd modd y chwe bar cyntaf ei adfer yn y diwedd mewn diweddeb gyda moddolrwydd Ioniaidd. Ym marrau 2,4, a 6 o'r tro, fodd bynnag, mae'r seithfed gradd yn naturiol ac felly'n sefydlu moddolrwydd Micsolydiaidd i'r rhan honno. Yn yr ail far o'r diwedd, mae'r seithfed sydd wedi ei godi yn naturiol ac felly'n sefydlu moddolrwydd Micsolydiaidd i'r rhan honno. Yn yr ail far o'r diwedd, mae'r seithfed sydd wedi ei godi yn dod â ni'n ôl unwaith yn rhagor i ddiweddeb Ioniaidd. Mae'n werth sylwi hefyd fod yr F uchel (sydd wedi ei farcio â seren yn nhrawsgrifiad Breathnach) ym mar 7 ym mhob rhan yn cael ei chwarae fel llithrad o E i F⁺ychydig yn is. Mae'r math hwn o addurniad, sy'n golygu 'mynd drwy' y trydydd lleddf (F⁺), am eiliad yn dod â lliw lleddf i'r frawddeg.

Tonyddiaeth

Y nodwedd bwysicaf sy'n sail i amwysedd modd cerddoriaeth draddodiadol Iwerddon yw tonyddiaeth neilltuol. Defnyddiaf y gair 'neilltuol' i olygu (a) nad yw'n safonol o ran tymmer gyfartal fodern a (b) ei bod yn nodweddiadol o gerddoriaeth sy'n cael ei chwarae ar y ddau offeryn 'hynaf' yn y traddodiad byw, sef y pibau *uilleann* a'r ffidil.

Y cyntaf i dynnu sylw at y donyddiaeth hon oedd y Tad Richard Henebry (1863-1916), offeiriad a ffidlwr o Swydd Waterford a oedd â'r Wyddeleg yn iaith frodorol iddo. (Ef hefyd oedd yr Athro Astudiaethau Celtaidd cyntaf yn y Brifysgol Gatholig yn Washington D.C., swydd a ddaliodd nes ei benodi ym 1909 yn Athro Gwyddeleg yng Ngholeg y Brifysgol, Corc). Prin fod neb yn cofio am Henebry erbyn heddiw, hyd yn oed y gymuned gerddorion, ond ysgrifennodd ddwy astudiaeth wych o gerddoriaeth Wyddelig. Y gyntaf oedd llyfryn o ddau ar bymtheg ar hugain o dudalennau o dan y teitl *Irish Music: Being an Examination of the Matter of Scales, Modes, and Keys, with Practical Instructions and Examples for Players* (Dulyn, 1903). Yr ail oedd astudiaeth strwythurol helaeth a manwl yn seiliedig

ar ddadansoddiad o bum cant o alawon o Gasgliad Petrie. (Gellid ei alw hyd yn oed yn ‘ramadeg’ disgrifiadol o gerddoriaeth Iwerddon, gan mai ei batrwm yn amlwg oedd *Handbuch des Altirischen* gan Rudolph Thurneysen [1909]). Cafodd ei gyhoeddi ar ôl ei farw o dan y teitl *A Handbook of Irish Music* (1928).

O ran y mater yma o donyddiaeth, mae Henebry yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng byseddu safonol a byseddu ‘Gwyddelig’:

On taking closer note of the fiddle fingering of a tune, say, ending in Gg, a modern player will find something to puzzle him in the positions of F on the third and first string, and C on the second and fourth. He will become conscious of the same difficulty in the cases of tunes in Dd. He will discover that in order to give roundness, fullness and truth to the tone, the F[♯], as he supposed it, must be played a quarter tone flat. This improvement he will find not only affects that note, but also colours those surrounding it. Indeed, its octave on the first string, when so treated, will give a dulcet shading to the whole high or second strain of a tune. Again, C will give some trouble. Somehow, neither modern C[♯] nor its sharp will answer. Very probably in trying to play some old air, the middle finger on the second string will wander, searching all over the space between B and D, and finally, as by accident, the tone will ring out with a round and full wail, in a position about equally separated from these notes. That is the Irish C[♯], three quarters of a tone above B, and three quarters below D. (Henebry 1903: 17)

Mewn gwirionedd, mae’r C a’r C[♯] Gwyddelig yn gorwedd rhwng y safleoedd clasurol sy’n cyfateb iddynt (fel y mae F a F[♯] Gwyddelig.) Mae Breathnach (1967:xi) yn disgrifio’r un ffenómena fel hyn:

Maent [C[♯] ac F] ychydig yn uwch yn ein cerddoriaeth frodorol nag yn yr hyn sy’n cyfateb ar y piano. Amcangyfrifir bod yr C

naturiol mewn cerddoriaeth draddodiadol yn union hanner y ffordd rhwng B a D ar yr offeryn hwnnw, hynny yw, mae C naturiol y pibydd a'r ffidlwr chwarter yn uwch na'r C ar y piano... Mae'r cerddor gwlad yn creu F naturiol drwy lithro o E i F: gyda'r canlyniad nad oes traw cyson i'r 'F' hwn.

Mae'r symudedd hwn yn yr C a'r F yn egluro sut mae amrywiadau mewn alawon yn digwydd mewn rhai casgliadau. Er enghraifft, caiff y ril *My Love Is in America* (ar y tonydd D) ei hysgrifennu ag un llonnod gan O'Neill (h.y. Micsolydiaidd) a chyda dau lonnod gan Roche (h.y. Ioniaidd). Yn nhrawsgrifiad manwl Pat Mitchell o chwarae'r pibydd Willie Clancy (1918-70), fodd bynnag, gwelwn fod modd Micsolydiaidd yn cael ei gynnal yn y rhan gyntaf, ac yn yr ail mae yna symud cyson rhwng y ddau fodd. (Mitchell 1976:68-9)

(5) My Love is in America (y tro, ddwywaith)



My Love is in America (Mitchell 1976:68-9 [gan Willie Clancy]. [y 'tro', ddwywaith])

M:4/4

K:G

fdeg fde^c | Add^c Addg | (3fgf eg fdcA | G BAG FDDg |

fdeg fde^c | Add^c defg | af (3gfe fdcA | GBAG FDDg |

fdeg fde^c | AbcA A2 df | fdeg fdcA | G2 AG FDDg |

(3fgf eg gde^c | Add^c defg | af (3gfe fde^c | dcAG FD D2 ||

Mae deinameg y pibau'n arbennig o addas ar gyfer chwarae C ac F symudol. Fel y mae Mitchell (1976:16-7) yn esbonio, yr oedd gan Willie Clancy nifer o ddulliau o chwarae C(i) sy'n cael ei acennu: (1) Yn ei ffurf sylfaenol, fel math o lithriad sy'n cael ei greu drwy 'ddadgyrlio'r bys'; (2) pan fydd yn *staccato*, ei godi tuag at C⁺ drwy gyfrwng clec â'r bys; a (3), mewn brawddeg C-E, chwarter tôn uwchben y nodyn. Nid yw hyn yn wir, wrth gwrs, gyda llawfyrdau. Fel mae Breathnach yn esbonio, bydd y C⁺sydd wedi ei godi mewn cerddoriaeth draddodiadol, sydd chwarter tôn yn uwch na'r nodyn ar y piano, yn aml yn cael ei chwarae fel C⁺ ar yr accordion (Breathnach 1967:xi). Yn yr enghraifft uchod o chwarae Willie Clancy, gwelwn ei fod yn elwa ar amwysedd modd drwy gyfrwng *goslef*.

Goslef

Wrth gyfansoddi ac wrth berfformio, bydd cerddorion Iwerddon yn defnyddio'r amwysedd modd sy'n tarddu o'r seiniau C ac F symudol. Mae amwysedd modd yn ffordd i greu'r amrywiad sydd wrth wraidd estheteg cerddoriaeth Iwerddon. Gellir chwarae'r un frawddeg ag C⁺ y tro cyntaf ac ag C⁺ y tro nesaf. Bryd hynny, yr ydym yn delio â *goslef*. Ar ei ffurf fwyaf cynnil, mae'r cerddor yn 'goglais' y gwrandawr drwy chwarae ar y ffin rhwng y C⁺ a'r C⁺ Gwyddelig. Mewn enghreifftiau eraill, gellir ei ddefnyddio mewn ffordd lawer mwy dramatig. Er enghraifft, mae yna set o alawon yn G lle gall y drydedd a'r bedwaredd radd ddigwydd yn yr amrywiadau goslefol B⁺ ac F⁺. Ni fydd pob cerddor yn defnyddio'r goslefaau hyn, a gall fod yn ddewis rhwng chwaeth leol a phersonol (ffaith sy'n tystio i natur hyblyg, *arddulliol* amrywiad melodaidd yn gyffredinol). Enghraifft dda o'r math hwn o alaw yw *The Mills Are Grinding* fel y'i gwelir (heb deitl) yn *Handbook* Henebry (1903:37):

(6) The Mills Are Grinding



‘A Reel’ [= *The Mills Are Grinding*] (Henebry 1903:37)

M:4/4

K:G

DGGF G2 A2 | BAGA BAGF | DE=FE F2 G2 | AGFG AGFE |

DGGF G2 A2 |

_BAGA Bcde | =fefd cAFA | _BGAF G2 :||

dgff g2 a2 | _baga bagf | d=ffe f2 g2 | ag=fg ag=fe | dgff g2 a2 |

_bag=f dcde | =fefd cAFA | BGAF G2 :||

Mae’r trydyddau (B⁺) a’r seithfedau (F⁺) meddalnod yn cael eu neilltuo ar gyfer canol yr alaw, h.y. nid ydynt yn digwydd mewn barrau agor na barrau diweddu. Eu gwaith yw cyflwyno lliw lleddf (Doriaidd) mewn alaw sy’n dechrau ac yn diweddu yn y modd Ioniaidd. Prin hefyd y byddai cerddor traddodiadol yn defnyddio’r goslefau hyn yn yr un ffordd drwy ailadrodd y rhannau (petai’n dewis eu defnyddio o gwbl, yn wir).

O ran defnyddio goslef, mae rhai ysgolheigion/cerddorion wedi ceisio nodi tueddiadau. Mae Tomás Ó Canainn (Ó Canainn 1978:33-4), er enghraifft, wedi nodi mai’r seithfed (F ac C fel rheol), y trydydd (F a B fel rheol) a’r pedwerydd (anaml) yw’r nodau mwyaf tebygol o gael eu goslefu. Sylwa hefyd fod y nodyn sydd heb ei oslefu yn cael ei wneud yn llonnod wrth ddigwydd mewn brawddeg esgynedig. Gallwn gymharu hyn â’r sylw gan Henebry:

The direction upwards or downwards in which a tune happens to be moving has a powerful influence upon the position of notes. Those leading up to a strong place, having the same function of a stop or a stop or return, are sharper than the same notes in descent. Also notes generally assume a sharper position when weak, though it is not possible to lay down a fast rule here without special study of the material. All places yield to this disturbing influence of ascent or descent, the displacement of C and F or the fourth and seventh of the modern scale from this and other causes being far greater than the range of any other note. (Henebry 1928:23)

Mae'n debyg fod y 'rheolau' hyn yn perthyn i'r un tueddiadau mewn perfformiad offerynnol ag a oedd yn rheoli *musica ficta* yn yr Oesoedd Canol ac a wnaed yn ffurfiol mewn cerddoriaeth baróc a chelfyddyd glasurol.

Enghreifftiau o ganeuon gwerin Iwerddon

Ar ôl ystyried y ffordd y bydd cerddorion Gwyddelig yn defnyddio amwysedd cywair yn eu cerddoriaeth ddawns, trown ein sylw nawr at ei swyddogaeth yn esthesteg amrywiad sy'n nodweddiadol o arddull leisiol hefyd.

Mae rhai enghreifftiau ar gael eisoes yng nghasgliad Liam de Noraidd, *Ceol ón Mumhan* (1965), sydd wedi ei drawsgrifio a'i nodi mor ofalus. Rwyf wedi ceisio disgrifio'r amgylchedd lle bydd goslef yn digwydd. Mae caneuon o ddiddordeb arbennig oherwydd y ffordd y gall yr alaw, wrth ddefnyddio amlinell, bwysleisio adegau allweddol yn y farddoniaeth. Yn wir, mae alawon yn draddodiadol wedi rhoi i feirdd gwlad batrwm mydr ar gyfer cyfansoddi newydd (nodwedd yn y traddodiad nad yw wedi ei hastudio'n ddigonol).

(7) Fáilte Uí Chonaill (y tro: barrau 1-4)



Fáilte Uí Chonaill ('Croeso O'Connell'), a recordiwyd gan Pádraig Ó Ceallaigh, Baile na Sceallag, ym mis Medi 1942 (de Noraidh 1965:24).

MODD: Doriaidd yn seiliedig ar y tonydd D.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y drydedd radd (F > F[♯]).

SYLW: Mae'r F^(♯) wedi ei oslefu ddwywaith a'r F[♯] ddwy ar hugain o weithiau. Mae'r F[♯] yn digwydd ddwywaith ym mar cyntaf ail ran y llinell neu'r 'tro'. Mae'n cyfateb yn y lle cyntaf i'r llafariad hir sy'n cael ei phwysleisio yn y gair *sáile* 'môr', a'r eildro fel addurn ar y llafariad olaf -e nad yw'n cael ei phwysleisio. Mae'r oslef fel petai'n nodi man emosiynol ddwys, a phan ddigwydd brawddeg gerddorol debyg yn nhrydydd bar y tro, mae'r alaw'n dychwelyd i F[♯].

(y tro: barrau 1-4)

F G | A A d2 ^f2 (3e^fe) e/2 | d2 d>d d2 z d | d d d2 {d}=f=f2 e | d
c AB c2 ... |

*Mar a | dtagaid thar sáile na | táinte fé sheol, na | loingeas chun
suain I | gCuan a' Ch'lóid ...*

(8) Bruach na Carraige Báine (llinell 3)



Bruach na Carraige Báine ('Ymyl y Graig Wen'), a recordiwyd gan Domhnall Ó hArachtáin, Eadargóil, Mehefin 1942 (de Noraidh 1965:26).

MODD: Micsolydiaidd yn seiliedig ar D tonydd.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y drydedd radd (F > F[♯]).

SYLW: Mae'r F wedi goslefu yn digwydd ddwywaith (o'i gymharu

â 9 o'r F⁺ heb oslefu). Mae'r cyntaf yn y chweched bar ar y llafariad hir sy'n cael ei phwysleisio yn y gair *stór* yn y frawddeg *stór mo chroí* 'cariad fy nghalon'. Caiff y nodyn ei lithro i fyny i uno ag G yn y gair *mo*. Mae'n dechrau disgyn yn ail hanner y drydedd linell yn y gân, sy'n torri ar ffanffer addurnol; wedyn mae'r alaw'n disgyn i ddiweddu ar y tonydd. Mae'n ymddangos yn yr enghraifft hon fod y gerddoriaeth yn nodi man emosiynol ddwys yn y gân. Gellir gosod y llinellau allan fel hyn.

C2 D2 | DE D>C D2 D/2C/2 D2 | =F3 G B{cB}>A

(Llinell 3) Cé | *chifinn chugham ach* | *stór mo chroí*,
'Pwy a welwn | ond *cariad* fy nghalon?

(Llinell 4) *is d'fhéach sí siúd go fóna*.
'ac edrychai'n hardd.'

Mae'r F⁺ yn digwydd yr eildro mewn amrywiad o'r un frawddeg gerddorol, y tro hwn ar ddiwedd trydedd linell y tro. Mae'n mynd gyda'r gair *dlúth* yn yr ymadrodd *go dlúth lem' chroí* 'yn agos at fy nghalon' ac mae'r geiriau a'r gerddoriaeth yn dwyn i gof y digwyddiad blaenorol. Mae'r F hwn wedi goslefu yn rhoi lliw modd Doriaidd i'r frawddeg.

(9) *Mo Mhuirín Bhán* ('Fy Nghariad Wen'), recordiwyd gan Tadhg Ó Murchú, An Coireán (Swydd Kerry), Medi 1942 (de Noraidh 1965:37).

MODD: Doriaidd yn seiliedig ar y tonydd D.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y drydedd radd (F > F⁺).

SYLWADAU: Mae'r F hwn wedi goslefu yn digwydd unwaith o'i gymharu â chwe enghraifft o F⁺. Fe'i ceir ar ddechrau ail linell y tro ac mae'n cyfateb i sillaf gyntaf y gair *eala*:

(tro, llinell 1) *Bíonn ba, bíonn | laoi ann agus bric 'na | slaodaibh*

(tro, llinell 2) *Is an eala is aoibhinn ar a' loch a' snámh*
(‘Mae yno wartheg, mae yno loi a physgod niferus/
a'r *alarch* hyfrytaf yn nofio ar y llyn’)

Mae'r goslefu hwn yn cyflwyno lliw Micsolydiaidd ac yn 'nodi' dyfodiad y 'tro'. Mae'n arwyddocaol fod yr un frawddeg gerddorol, sy'n dychwelyd y tro hwn i'r FJ, yn cael ei hailadrodd ddau far yn ddiweddarach.

(10) Tadhg Buí (llinell 1)



Tadhg Buí ('Tim Welw'), recordiwyd gan Mícheál Ó Luasaigh, Baile Mhúirne (Swydd Corc), Gorffennaf 1943 (de Noraidh 1965:48).

MODD: Ioniaidd yn seiliedig ar y tonydd D.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: (a) y seithfed radd ($C^+ > C$); (b) trydedd radd ($F^+ > F$).

SYWADAU: Mae'r seithfed radd wedi ei goslefu (meddallnod) bedair gwaith o'r un enghraifft ar bymtheg lle mae'n digwydd. Mewn tair enghraifft (yn llinellau 1, 2, a 4) mae'n digwydd mewn amrywiad o'r un frawddeg gerddorol ac yn cyfateb i'r ail *í*, sy'n cael ei phwysleisio yn y patrwm cyseiniol *í - í - i - a*. sy'n cael ei hailailadrodd. Ym mhob achos mae'n nodi diwedd brawddeg esgynedig ac yn dod yn union o flaen gostyngiad i E isel: er enghraifft, yn llinell 1:

M:3/4

A>B ce | d3c A G | A=c E2 E>D ^CD | F/2 F/2 F2 D | E ... |

Má's Tadhg | Buí mé tá | croí 'gam níos | gile ná'n chailc

('Hyd yn oed os Tim Welw ydw i, mae gen i galon mwy llachar na chalch')

Daw'r bedwaredd enghraifft o $C^+ > C$ wedi goslefu ar y sillaf olaf sy'n cael ei phwysleisio yn llinell 3, a gwneir hynny drwy lithrad i fyny o B. Fel yn y llinellau eraill, mae'n dod yn union o flaen gostyngiad dramatig i E isel.

Mae'n amheus a ellir ystyried bod meddalau ychydig ar y drydedd radd (F⁺>F+) yn drawsgrwyweiriad gan ei fod yn digwydd yn yr unig enghraifft o'r radd honno yn y gân, sef ailadrodd deirgwaith y chwarter-tôn F+ ar y gair *gile* yn y llinell gyntaf (gweler uchod). Beth bynnag, mae'n debygol ei fod yn creu amwysedd modd. Mae'r trawsgrifiwr wedi nodi bod y cyweirnod gwirioneddol F+ 'ychydig yn is na F⁺'.

(11) *Ar Maidin ar Nóin* ('Ryw Fore Ganol Dydd'), recordiwyd gan Tomás Haicéid, Ceapach (Swydd Waterford), Ionawr 1941 (de Noraidh 1965:54)

MODD: Doriaidd yn seiliedig ar D tonydd.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y drydedd radd (F>F+).

SYLWADAU: Darperir trawsgrifiad cerddorol o bum pennill gan de Noraidh. Mae hwn yn gyfle i ni sylwi sut y gellir defnyddio goslef fel amrywiad arddull. Ym mhennill 1 mae F⁺ yn digwydd bum gwaith. Ym mhenillion 2 a 3 mae F+ wedi goslefu yn digwydd mewn man sy'n cyfateb i G yn y pennill cyntaf (a phenillion 4 a 5). O ran y goslefu (F+), mae'r golygydd yn sylwi ei fod 'ychydig yn uwch nag F⁺'. (Sylwch ar amrywiaeth y 'chwarter-tôn' hwn fel y nodir gan sylw'r trawsgrifiwr am yr enghraifft flaenorol).

(12)



***Táilliúir Chroí Mhóir* (Ó hÓgáin 1994:120-1)**, casglwyd gan Liam de Noraidh oddi wrth Labhras Ó Cadhlaigh, Kilgobinet, Swydd Waterford, 29/7/1940.

K: D

Mesur rhydd.

Mae pob pennill yn cynnwys pedair llinell hir o 10-12 sill + caesura + 8-10 sill. Mae'r un frawddeg gerddorol yn nwy linell gyntaf y gân (gyda mân amrywiadau):

(12ab) (12b) = llinell c



d=c | B2 =c3 B | A4 (3ABc | d2>c A F/2F/2 | G2>F D z
D E | F G3 F2 | E3C E2 | D4 D z |

Nid yw'r seithfed radd C yn amlwg (h.y. mae'n digwydd unwaith mewn addurn) yn nhrydedd linell y gân, sy'n cael ei nodweddu gan drawsgyweiriad melodaidd yn seiliedig ar gyfres o batrymau esgynedig cynyddol sy'n diweddu ar D uchel).

(12c) = llinell d



FG | A2 d e | f3 e f f | 2g f3 f | e (3efdc/2B/2 A>z F G |
A3 d d e | f f2 f/2/g/4f/4 e d | d4 d2 |

Yn llinell olaf y pennill caiff patrwm melodaidd gwreiddiol llinellau un a dau ei ailsefydlu yn y bar cyntaf (ond y tro hwn mae'r nodau yn y drefn wrthwyneb d=cB > B=cd):

(12d) A B | =c d3 cB/2A/2 | A A (3ABc | d3 d/2 A>F | G>F D z
DE |
F G3 F F | E3 C E2 | D4 D2 |

Yn y ddau far cyntaf yn llinellau un a dau, mae cyd-destun melodaidd y llinell yn ei chyfanrwydd yn awgrymu harmoni cordaidd o (DM)-GM-AM sy'n cyfateb i'r nodau d-B-A sy'n cael eu pwysleisio. (Rwy'n defnyddio'r gair 'pwysleisio' yn yr ystyr fod pwyslais naturiol y sillafau wrth gael eu canu neu eu llefaru ar y nodau hyn.) Yn nau far cyntaf llinell pedwar, ac er gwaethaf y patrymau tebyg,

mae'r harmoni cordaidd a awgrymir yn y ddau far cyntaf yn batrwm (DM)-C-AM sy'n cyfateb i'r nodau A-C-A sy'n cael eu pwysleisio. Er ei fod yn C³ yn llinellau un a dau, yr oedd yn gwneud hynny fel nodyn camu heb bwyslais; yma mae'n cyfateb i bwyslais llefaru naturiol ac yn cael ei nodi gan yr harmoni a awgrymir.

Mae nodweddion tebyg mewn caneuon i'w clywed yn rhai o drawsgrifiadau mwyaf dibynadwy'r bedwardd ganrif ar bymtheg o gerddoriaeth Iwerddon. Mae trawsgrifiad James Goodman o *An Páistín Fionn*, a godwyd gan y pibydd Thomas Kennedy o Kerry rywbryd rhwng 1860 a 1866, yn dangos symudiad modd, yn seiliedig ar amrywiad rhwng C ac C³, o ran gyntaf yr alaw (Ioniaidd yn seiliedig ar y tonydd D gyda harmonïau posibl o DM/AM/G) i ail ran yr alaw (Micsolydiaidd ar D gyda harmonïau posibl DM/Am/GM).

Mae trawsgrifiad Goodman o *Fágfaimid siúd mar atá sé* mewn modd lleddf (trydydd wedi lleddf), ond mae'r nodyn amrywiol F sy'n digwydd bob yn chweched gradd weithiau'n llonnod ac weithiau - mewn brawddegau disgynedig - yn naturiol. Mae'r alaw'n ymddangos fel 'tonig dwbl' gyda harmonïau sy'n symud rhwng Am ac G, a'r F³, lle mae'n digwydd, yn gweithredu fel nodyn arweiniol i'r tonydd G gwahanol.

Mae'r enghreifftiau uchod yn ddiddorol am nifer o resymau. Yn gyntaf maent yn dangos hoffter o oslef ar y trydydd a'r seithfed. Yn ail, maent yn dangos sut mae nodwedd felodaidd goslef yn tynnu sylw at fannau emosiynol ddwys yn y gân. Yn drydydd, mae'r enghreifftiau'n dangos sut y gellid defnyddio goslef fel amrywiad, h.y. fel nodwedd yn yr arddull. Mae ffurf nodyn wedi goslefu yn ffurf luosog sydd ar gael i'r canwr wrth berfformio.

Trawsgrifiadau

Nid oedd casglwyr cynnar cerddoriaeth Iwerddon, fel Edward Bunting (a gyhoeddodd ei gyfrol gyntaf *Ancient Irish Music* ym 1796) a George Petrie (*Ancient Music of Ireland* [1855]) yn deall y graddfeydd modd na nodweddion arbennig y nodau C ac F yng ngherddoriaeth offerynnol Iwerddon. Byddai eu hymdrech i

gynrychioli'r cyntaf yn aml yn golygu defnyddio arwydd cyweirnod o dri neu bedwar llonnod neu feddalnod - cyweirnodau sy'n ddieithr i'r gerddoriaeth ar offerynnau traddodiadol. O ran yr ail, h.y. y chwarter tonau sy'n deillio o donyddiaeth anarferol, yr oeddent ar goll eto. Weithiau, rwy'n tybied, gall defnyddio hapnodau fod yn ymgais ganddynt i gynrychioli nodweddion tonyddiaeth (hapnod lleddf, er enghraifft, yn cynrychioli *glissando*, h.y. 'llithrad' i fyny ar draws clwstwr o nodau) neu hyd yn oedd addurn (mordantau, h.y. 'troeon' neu 'roliau'). Yn y casgliadau enwocaf o gerddoriaeth Iwerddon, *The Dance Music of Ireland – 1001 Gems* (O'Neill 1907) gan y Capt. Francis O'Neill, ni cheisiodd y trawsgrifiwr (Sgt. James Early) gynrychioli goslefau chwarter-tôn o gwbl. Yn wir, cymerai'n ganiataol fod y sawl a allai ddarllen cerddoriaeth draddodiadol eisoes yn deall y system. Yn ddiweddarach, fodd bynnag, mae rhai wedi ceisio defnyddio symbolau o ryw fath neu'i gilydd i gynrychioli nodau felly. Mae'r mwyafrif, gan gynnwys Breandán Breathnach a Francis Roche, yn defnyddio seren (*asterisk*). Mae eraill wedi defnyddio'r symbol hanner-llonnod yn yr arwydd cyweirnod.

Alawon Cymru: Casgliad Maria Jane Williams

Hoffwn gloi gyda rhai sylwadau am gerddoriaeth draddodiadol y wlad hon fel mae wedi ei chynrychioli mewn casgliadau ysgrifenedig.

Yn gyntaf, mae'n ymddangos bod tonyddiaeth anarferol yn nodwedd yn arddull canu traddodiadol, o leiaf mewn rhai rhannau o Gymru. Y dystiolaeth dros hyn yw trawsgrifiadau enwog Alfred Daniell o ganeuon gan ddefnyddio'r hyn a ddisgrifia fel 'graddfa adroddol led-Ddoriaidd' (Daniell 1910:56). Mewn trawsgrifiad o bennill o berfformiad ei fam o faled *Morgan Jones o'r Dolau Gwyrddion* (roedd hi wedi ei dysgu gan Dic Dywyll, y canwr pen stryd o Gaernarfon yn y 1830au), caiff trydedd gradd yr alaw Ddoriaidd ei chodi 'chwarter-tôn clir' ym mhob achos (h.y. wyth gwaith), ac eithrio un. Mae'n digwydd mewn brawddegau disgynedig fel mewn 'gostyngiad'. Mae'r unig enghraifft o'r F heb oslefu mewn brawddeg sy'n amlwg yn esgyn 1 | 34 | 5 (Daniell 1910:58). Yn

fersiwn Mrs. Daniell (mam Arthur Daniell) o *Lliw Gwyn Rhosyn yr Haf* (hefyd gan Dic Dywyll), mae yn yr alaw Ddoriaidd drydedd radd wedi ei haddasu mewn saith enghraifft allan o un ar ddeg. Eto, mae'n digwydd mewn patrymau disgyn a gostwng yn unig, a'r trydydd heb ei addasu'n digwydd wrth ddisgyn (Daniell 1910:86). Yn yr alaw hon mae'r seithfed hefyd wedi ei addasu drwy'r gân.

Fel mewn enghreifftiau o ganu Iwerddon, mae'r goslefaau hyn sydd wedi eu codi yn digwydd ar y graddau mwyaf hanfodol ar gyfer penderfynu'r modd. Ydyn nhw'n adlewyrchu nodwedd yn yr arddull lle gallai'r canwr oslefu ar ochr Ddoriaidd y ffin Ddoriaidd/Ioniaidd? Hynny yw, a oedd amwysedd modd yn cael ei ddefnyddio?

Yng nghanu Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr oedd goslefaau o wahanol fathau (yn deillio o amrywiol fathau o oslefu neu newidiadau mewn lliw modd) yn ddigon amlwg i Ieuan Ddu eu disgrifio fel rhai nodweddiadol Gymreig.

... the peculiarities of the real Welsh melody:- the easy alternation of the major and minor strains wherein no affected effort of the composer appears to have produced a note; but every transition seems purely accidental, and as spontaneous as that phrase which is most in keeping with the key announced. (Thomas 1845:)

Gallwn gymharu â hyn sylw Liam de Noraiddh ar ganu Gwyddelig:

Weithiau clywir nodau nad ydynt ar yr un traw drwy'r gân gyfan. Mae'n anodd bod yn sicr ynglŷn â modd achos fel hyn. Petai trydydd nodyn a seithfed nodyn y raddfa'n amhenodol, byddai'r alaw'n gwamalu rhwng y modd-*do* a'r modd-*ré*, a byddai'n amhosibl eu pennu fel y naill yn hytach na'r llall. Canlyniad yr ansicrwydd hwn yw melyster anarferol; byddai'n dod â holl liwiau'r enfys i feddwl y gwrandawr (De Noraiddh 1965:14)

Mae hyn i gyd yn awgrymu y dylem ailystyried y farn fod goslefaau (ar wahân i'r 'moddau pur') yn nhrawsgrifiadau'r bedwaredd ganrif

ar bymtheg o gerddoriaeth Cymru yn ddim mwy na ‘chywiriadau’ (Williams). Pam ddylai goslefau gael eu hystyried yn nodwedd ryfedd yng nghaneuon traddodiadol Cymru? Yn wir, mae Peter Crossley-Holland wedi esbonio bod tua 24% o’r pedwar cant o alawon yn ei gronfa ddata wedi eu ‘haddasu’ gan ryw fath o oslef neu drawsgyweiriad (1968: 70). Hwyrach ei bod yn werth sylwi hefyd fod tuag un rhan o bump o ddawnsiau yn argraffiad cyntaf *Dancing Master* gan Playford(1651) mewn moddau wedi eu trawsgyweirio: (a) Doriaidd gyda seithfed wedi ei godi: *A Health to Betty, Millison’s Jegge, Faine I Would* (a elwir hefyd *The King’s Complaint, Parthenia*), *Heart’s Ease, Prince Rupert’s March, Petticoat Wag, Stanes Morris, Lulle Me Beyond Thee*; (b) Doriaidd gyda thrydydd a seithfed wedi eu codi: *Dull Sir John*; (c) Doriaidd gyda phedwerydd wedi ei godi: *Kettle Drum*; (d) Aeoliaidd gyda seithfed wedi ei godi: *My Lady Cullen, Jack Pudding, Lavena, Chestnut*; (e) Micsolydiaidd gyda seithfed wedi ei godi: *Mayden Lane, New Boe Peep, Paul’s Wharfe, Mundesse*; (f) Ioniaidd gyda phedwerydd wedi ei godi: *Aye Me*.

O ran casgliad Maria Jane Williams, mae problem arall yn codi o’r ffaith fod y ffurf ar radd graddfa wedi goslefu, mewn unrhyw alaw, yn digwydd mewn lleiafrif o’r enghreifftiau o’r radd graddfa honno. Os derbyniwn fod Maria Jane Williams wedi newid rhai enghreifftiau o’r radd graddfa honno a gadael eraill fel yr oeddent, dylem ystyried pa feini prawf esthetig a pha nodweddion strwythurol yn yr alawon a allai fod wedi rheoli ei phenderfyniadau yn y materion hyn.

Dadansoddiadau cyflym yw’r nodiadau isod o’i halawon ‘wedi goslefu’ ynghyd ag awgrym o’r amgylcheddau lle mae’r goslefau hynny’n digwydd.

(13) *Craig y Ddinas* (t. 54)

MODD: Doriaidd yn seiliedig ar y tonydd D.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y chweched gradd (B/B); y seithfed

(C/C[♯]).

SYLWADAU: Mae'r seithfed wedi ei godi (C[♯]) yn digwydd unwaith: mewn brawddeg ostyngol 878 sy'n nodi'r tro (trydedd linell y pennill pedair llinell) yn yr alaw. Mae'r B>B_♭ wedi goslefu yn digwydd unwaith, mewn patrwm disgynedig (llithrad) 765 yn y bar sy'n dilyn.

(14) *Can y Lleisoniaid* (t. 18)

MODD: Ioniaidd yn seiliedig ar y tonydd G.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: Y bumad radd (D>D[♯]).

SYLWADAU: Mae'r 5 wedi goslefu yn digwydd ddwywaith (mewn patrwm sy'n 76576 sy'n ailadrodd) ac mae'n cyflwyno tro'r alaw. Gellid harmonieiddio rhan gyntaf y tro hefyd ar Em, pan ellid ystyried y D[♯] fel seithfed wedi ei godi, h.y. nodyn arweiniol.

(15) *Y Deryn Du Pigfelyn* (t. 12)

MODD: Ioniaidd yn seiliedig ar y tonydd F.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y seithfed radd (E>E[♯]).

SYLWADAU: Mae'r E[♯] hwn heb bwyslais yn digwydd unwaith - yn yr ail far - ac yn cyflwyno brawddeg ddisgynedig. Trydydd lleddf yw hwn yn seiliedig ar y llywydd, gan gyflwyno lliw lleddf (Doriaidd/Aeoliaidd).

(15a) *Y Deryn Du Pigfelyn*



K:F

M:6/8

F | F2 F F2 f | f3 c2 _e | d2 c B2 A/2c/2 | B3 B2 -

Gellir cymharu lliw modd y goslefu i hwnnw sydd i'w glywed yn ail linell y gân Wyddelig *The Bold Tenant Farmer*:

(15b) The Bold Tenant Farmer

K:F

M:6/8

d | ede cde | BGF _E3



(16) Dyddiau Gwynion Ionawr



Dyddiau Gwynion Ionawr (t. 35)

MODD: Ioniaidd yn seiliedig ar y tonydd F.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y bedwaredd radd (B>B⁺).

SYLWADAU: Mae'r goslefu'n digwydd ddwywaith fel rhan o addurn yn yr un frawddeg.

K:F

M:4/4

c | de f>e d e2 d | c>A _B/2c/2d/2 _B/2 c2 |

Mae'n cyflwyno diweddeb ar y llywydd (c).

(17) Merch y Melinydd



Merch y Melinydd (t. 29)

MODD: Ioniaidd yn seiliedig ar y tonydd D.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: Y bedwaredd radd (G>G⁺),

SYLWADAU: Mae'r goslefu'n digwydd unwaith (o'i gymharu â'r naturiol bum gwaith) yn y pedwerydd bar (ar ddiwedd ail linell y gân) ac mae'n cyflwyno'r llywydd (A).

K:D

M:4/4

E2 | A>A B>^G A2

Mae'n ymddangos fel enghraifft arall o nodyn lled-arweiniol cyn diweddeb felly. Mae'n digwydd mewn patrwm 645.

(18) *Y Ferch Fedydd* (t. 34)

MODD: Doriaidd yn seiliedig ar y tonydd G.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y seithfed radd ($F > F_1$).

SYLWADAU: Mae'r goslefu'n digwydd unwaith (o'i gymharu â phedair enghraifft o'r naturiol) fel nodyn arweiniol ym mar olaf yr alaw (patrwm 2171). Mae'r alaw wedi ei thrawsgrifio gyda B_1 (yn hytrach nag F) fel arwydd cyweirnod.

(19) *Glyn Nedd* (t. 36)

MODD: Doriaidd yn seiliedig ar y tonydd G.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y seithfed radd ($F > F_1$).

SYLWADAU: mae'r goslefu'n digwydd unwaith (o'i gymharu â thair enghraifft ar ddeg o F_1) fel nodyn arweiniol mewn patrwm 2 | 17122. Mae yna nifer o enghreifftiau mewn mannau eraill yn yr alaw o 7 heb oslefu o flaen l. Mae'r alaw wedi ei thrawsgrifio gyda B_1 (yn hytrach nag F) fel arwydd cyweirnod.

(20) *Gwen Lliw'r Lili* (t. 26)

MODD: Doriaidd yn seiliedig ar y tonydd C.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y seithfed radd ($B_1 > B_2$)

SYLWADAU: mae'r goslefu'n digwydd ddwywaith (o'i gymharu â chwe enghraifft o B_1) fel nodyn arweiniol yn y patrymau 155671 (bar 4) a 1512712. Mae'n digwydd mewn amgylchedd heb bwyslais, h.y. mewn clwstwr esgynedig o un ar bymtheg o nodau ac mewn tripledd disgynedig.

(21) *Holl Feibion a Merched* (t. 44)

MODD: Doriaidd yn seiliedig ar y tonydd E.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y chweched radd ($C^3 > C^2$); seithfed ($D^3 > D^2$).

SYLWADAU: Mae'r chweched wedi ei goslefu (C^3) yn digwydd ddeg gwaith o'i gymharu â'r naturiol ddwywaith. (Rheswm, felly, pam y dylem hwyrach gymryd fod yr alaw yn y modd Aeoliaidd (modd deilliedig, ar G). Mae'r seithfed wedi goslefu (D^3) yn digwydd bedair gwaith (o'i gymharu ag un ar ddeg o enghreifftiau o'r naturiol) ac yn yr un amgylchedd: ddwywaith ym mar 12 a dwywaith ym mar 18. Mae'n digwydd mewn brawddeg ac wrth ymyl brawddeg sydd hefyd yn cynnwys y chweched wedi goslefu:

76655 | 567232117 | 1=76=754

Mae'n ymddangos fel brawddeg addurnol iawn.

(22) *Pan Oeddwn ar Ddydd yn Cyd-rodio* (t. 56)

MODD: graddfa hecsatonig leddf (y chweched gradd ar goll) yn seiliedig ar y tonydd G.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y seithfed gradd ($F^3 > F^2$).

SYLWADAU: Nid oes yr un enghraifft o F^3 . Felly, mae'n amheus a ddylid ystyried hwn yn briodol yn oslefu nac yn hapnod o gwbl. Mae'r seithfed yn digwydd mewn dau batrwm 171 a 271.

(23) *Pryd O'wn ar Ddiwarnod* (t. 75)

MODD: Doriaidd yn seiliedig ar y tonydd E.

NODAU WEDI EU GOSLEFU: y seithfed radd ($D^3 > D^2$).

SYLWADAU: mewn modd 'Doriaidd pur', h.y. heb y nodyn wedi ei oslefu, gallai'r alaw hon yn hawdd fod wedi ei harmoneiddio fel tonydd dwbl ar Em a DM. Mae defnyddio'r seithfed wedi ei oslefu yma yn ein hatgoffa o hwnnw yn yr alaw Wyddelig *Cailin Deas Cruite na mBo*.

Y seithfed o bell ffordd yw'r radd sy'n goslefu amlaf o bell ffordd (mewn wyth cân, naw o bosibl). Mae'r pedwerydd wedi ei oslefu (a gall fod yn cynrychioli rhyw fath o nodyn arweiniol i'r llywydd) a'r chweched yn digwydd mewn dwy gân, a'r pumed (y gellid ei ddadansoddi o bosibl fel seithfed) mewn un gân. Hwyrach ei bod yn arwyddocaol yma nad oes enghraifft o'r trydydd wedi ei oslefu, sydd mor nodweddiadol o ganu Iwerddon ac a allasai hefyd fod yn nodwedd yn y caneuon o Gaernarfon a drawsgrifiwyd gan Daniell. Er y gwahaniaethau hyn, mae'n ymddangos i mi y dylem dderbyn ei bod yn bosibl y gallasai tonyddiaeth anarferol (h.y. tonyddiaeth nad yw'n seiliedig ar 'dymer cyfartal') ac amwysedd modd fod yn nodweddion yn arddull canu traddodiadol Cymru, a bod yr hapnodau yn nhrawsgrifiadau Maria Jane Williams yn ymdrechion onest, ond amherffaith, efallai, i'w cynrychioli.

LLYFRYDDIAETH

Breathnach, Breandán (1963; 1967), *Ceol Rince na hÉireann* [= CRE], Vol. I (Dulyn)

_____ (1971), *Folk Music and Dances of Ireland* (Cork)
Bunting, Edward (1796), *Ancient Irish Music* (Llundain).

Crossley-Holland, Peter (1968), 'The tonal limits of Welsh folk song', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, 5, rhan 2, 46-73.

Daniell, Alfred (1910), 'Remarks on the tonality of some Welsh melodies', *Cylchgrawn Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru*, 1, rhan 2, 51-9.

de Noraidh, Liam (1965), *Ceol ón Mumhain* (Dulyn).

Henebry, Richard (1903), *Irish Music: Being an Examination of the Matter of Scales, Modes, and Keys, with Practical Instructions and Examples for Players* (Dulyn).

_____ (1928), *A Handbook of Irish Music* (Cork).

Mitchell, Pat (1976), *The Dance Music of Willie Clancy* (Dulyn).

Ó Canainn, Tomás (1978), *Traditional Music in Ireland* (Llundain).

O'Neill, Francis (1907), *The Dance Music of Ireland – 1001 Gems* (Efrog Newydd).

O'Sullivan, Donal, a Mícheál Ó Súilleabháin, gol. (1983), *Bunting's Ancient Music of Ireland* (Cork).

Petrie, George (1855), *Ancient Music of Ireland* (Llundain).

Roche, Francis (1982), *The Roche Collection of Traditional Irish Music*, Cyf. 1-2 [1912], 3 [1927] (Cork: Cyhoeddiadau Ossian)

Shields, Hugh, gol. (1998), *Tunes of the Munster Pipers: Irish traditional music from the James Goodman manuscripts* (Dulyn: Archif Cerddoriaeth Draddodiadol Iwerddon)

Thomas, John ['Ieuan Ddu'] (1845), *Y Caniedydd Cymreig* (Merthyr Tudful).

Williams, Maria Jane (1994), *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg* [1844]: gyda rhagymadrodd a nodiadau ar y caneuon gan Daniel Huws (Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru).

ATODIAD

Yng nghorff y papur hwn, trawsgrifennwyd yr esiamplau cerddorol gan ddefnyddio'r system 'ABC' sydd yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin iawn ymysg cerddorion traddodiadol.



* 0000869 *

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.

Dyblygion

cylchgrawn Cymdeithas +

08/09/2000